

Cais at y Comisiynydd Iaith

Cynnig ar gyfer

CANOLFAN YMCHWIL

I

ADENNILL IAITH

sy'n cynnwys

- (i) Llythyr agored at y Comisiynydd Iaith**
- (ii) Amlinelliad o Gynnig ar gyfer Sefydlu Canolfan Ymchwil i Adennill Iaith**
- (iii) Trafodaeth ar y Cynnig (ar ffurf Cyfweiliad gydag R.M. Jones)**
- (iv) Atodiad: llyfryn 'Problemau wrth Adennill Iaith', fel enghraifft ymarferol o gynnwys un wedd yn fanwl ar weithgarwch y Ganolfan**

2014

Llythyr Agored at y Comisiynydd Iaith

Annwyl Gomisiynydd Meri Huws,

Fel dinesydd Cymreig cyffredin yr ysgrifennaf atoch am mai chwi yw pennaeth yr Adran Weinyddol i'r Senedd sy'n gyfrifol am fuddiannau'r Iaith Gymraeg y tu allan i'r Senedd yn benodol.

Nid oes a fynnwyf yn y cais hwn ag unrhyw blaid boliticaidd unigol. Tybiaf fod y ddogfen *Iaith Pawb* yn aros fel datganiad o bolisi ar ran pob plaid yn y Senedd yn unfryd.

Yr hyn sydd gennyf yw *nid 'newid' polisi*. Dymunaf awgrymu, o fewn y cyffiniau cydnabyddedig, weld atrefnu adeiladwaith presennol y gweithgarwch ymarferol er mwyn tyfu i lenwi bwlch pwyslais yn unig. Ceisiaf arddangos bod y *sector gwirfoddol* ar hyn o bryd yn anghenus. Yn ôl y patrwm statudol sydd gan y Senedd o weithio, wrth natur y mae'n deddfu ac yn sefydlu rheoliadau. Ond gweithia yn arbennig drwy hyrwyddo a chefnogi rhai blaenoriaethau. Ac y mae hynny oll yn gwbl angenrheidiol.

Ond oherwydd natur y drefn honno, ysywaeth, gellir esgeuluso un o nodweddion angenrheidiol yr iaith ynddi ei hun. Yn ei hanfod, y mae dyfodol yr iaith ac anian yr iaith wrth raid yn dibynnu ar ewyllys a dymuniad y bobl. Er bod deddf yn cynorthwyo, yn uno, ac yn gweithredu mewn modd statudol ym mhob rhan o gymdeithas, gellir yn hawdd golli golwg, a pheidio â chynllunio, ar gyfer yr hyrwyddiad gwirfoddol deniadol.

Edmygaf y gwaith a wnaethpwyd hyd yn hyn i hyrwyddo'r iaith mewn ffyrdd hyfforddiadol, drwy bwysleisio Cymraeg cyhoeddus, drwy wasanaethau rhagorol i'r gymdeithas yn gyffredinol gyda darparu cynghorion a chyfarwyddiadau, ac arweiniad doeth. Mater cyfredol arall o bwys aruthr yw'r Gyfundrefn addysg statudol.

Awgrymaf, serch hynny, fel y ceisiaf ei esbonio yn y ddogfen hon, y buasai darparu Canolfan Ymchwil hollol broffesiynol a hyfforddedig ac ar wahân i'r sectorau penodedig eraill yn gam mawr Cymreig i lenwi bwlch i bawb. Ni chredaf y bydd eisiau ychwanegu'r un newydd at staff eich adran. Newid pwyslais o fewn y staffio presennol yw'r bwriad i gwmpasu perthynas y sector gwirfoddol, sy'n wedd naturiol a hollol hanfodol ar y gwaith yn grwn. Byddai'n estyniad naturiol o

fewn y cyfrifoldeb presennol. Ni ddylai fod yn benodol glwm wrth y statudol addysgol, nac wrth wasanaethau cyhoeddus taledig eraill. Sefydliad academiaidd *ac* ymarferol fyddai y tu allan i gyfundrefn sefydliadau eraill. Ceisiaf ddisgrifio'r math o fwch sydd ar gael ar hyn o bryd – ar gyfer ysgogi'r gwirfoddoli mewn modd strwythurol. Ceisiaf ddangos sut yr ymarferolir y cyfeiriad hwnnw.

I'm bryd i, byddai Canolfan *Ymchwil* o'r fath yn y sector hwn yn effeithio ar ogwydd y sector iaith yn gyffredinol. Gwasanaeth fyddai a fyddai'n gyfangwbl amddifad o 'hawliau' a 'gorfodaeth', ac yn ymdebygu mewn rhai ffyrdd i sefydliadau unigolyddol eraill megis, yn sefydliadol, y Llyfrgell Genedlaethol, ond bod honno ar raddfa fwy o lawer wrth gwrs.

Pan sefydlwyd eich Swyddfa, nid oedd y wlad, yn gyffredinol, yn ymwybodol o hawliau anochel yr iaith. A diolch i'r gwaith a wnaethoch acw, y mae'r ymwybod wedi newid yn effeithiol iawn. Tybiaf fod y sefyllfa wedi cyrraedd man lle y gellir datblygu gogwydd y gweithgarwch ymhellach byth, a'i rannu mewn ffordd bellach. Ac er mwyn gwneud hynny, syniaf fod ychwanegu Sefydliad Cenedlaethol newydd, lled hunanlywodraethol (a fyddai'n glamp o dyfiant), o fewn paramedr eich Swyddfa bellach yn adnewyddiad rhesymegol i'r gweithgarwch a gafwyd hyd yn hyn. Cyflwynaf felly amlinelliad o gynnig posibl o fewn awdurdod cylch gwaith eich Swyddfa chwi, ond drwy ogwyddo pwyslais. Byddai'n rhaid i'r fath ddatblygiad dderbyn cymeradwyaeth swyddogol gan y Senedd, mae'n siŵr. Gallaf ddychmygu y cymer dipyn o amser i'w weithredu a'i gynnwys yn y rhaglen waith i'r dyfodol. Byddai angen cywiro, helaethu, a chaboli'r cynnig amrwd hwn sy'n canlyn. Ond nawr yw'r amser i gynllunio twf pellach.

Tybiais y buasai'r fath atrefniad heddychlon, sy'n sylfaenol weinyddol, yn cael ei gychwyn yn orau yng nghyswllt eich Swyddfa chwi. O ran ansawdd, y mae'r cynnig yn annadleuol o ran ymagweddu gwleidyddol. Ond gofynnaf am eich beirniadaeth garedig ynghylch rhoi'r fath ddatblygiad ar gerdded yn swyddogol. Yn y ddogfen hon canolbwyntiaf ar y rhesymeg ac ar y math o strwythur a'r egwyddorion y tu ôl i Ganolfan o'r fath. Gwelwch fod yr 'Ymchwil' a arfaethir i'r fath Sefydliad yn cynnwys llawer mwy nag ymchwil addysgol neu ymchwil ar gyflwyno'r iaith, er bod hynny'n rhan. Fe'i rhoddir o fewn cyd-destun adeiladwaith gwirfoddol gyda'r 'swyddogol' yn gwasanaethu pegwn sy'n gorfod bod yn hanfodol 'wirfoddol'. Ond y mae'r Adennill yn cwmpasu hefyd ymchwilio proffesiynol ac adeiladu cefnogaeth mewn dyfnder i'r cynllunio cyflwyniadol presennol. Felly, yr wyf yn cyflwyno atodiad enghreifftiol estynedig i'r Cynnig hwn am Ganolfan drwy ymhelaethu ar un wedd ar waith y Ganolfan honno. Cynhwysaf felly adroddiad am ran o

fecanwaith yr ymchwilio ieithyddol ei hun a fyddai ar waith: *Problemau wrth Adennill Iaith*.

Hyderaf yn fawr y byddwch yn gallu ystyried y cynnig hwn yn un priodol wrth ichwi weithredu eleni y symudiad tyfiannol pellach sydd gennych mewn golwg eisoes. Os gallaf innau esbonio unrhyw wedd ymhellach ar yr hyn a gyflwynir, rhowch wybod os gwelwch yn dda. Nid oes gennyf hawl i fynd ymhellach fy hun. O ran cymwysterau uniongyrchol, bûm yn ymwneud â gwaith gwirfoddol dros rai degawdau ynglŷn ag adennill iaith, ac o ran proffesiwn – ymwnes â'r hyfforddiant perthnasol ac ymchwil hir yng Nghymru a thramor ym maes ieithyddiaeth gymwysedig sydd yn ofynnol. Ac felly cynnig a wnaaf awgrym yn unig – ond un manwl, a fydd yn dadwleidydda ymarfer da ac yn gweithredu'n ddiriaethol i gysylltu egnïon dwy ochr yr iaith, sef yr enillwyr (neu'r dysgwyr) a'r hybwyr (sef y Cymry Cymraeg rhugl).

A gaf eich llongyfarch hefyd fel swyddfa sydd o ddydd i ddydd yn gweithio'n rhyfeddol wych i gynnal ac amddiffyn yr iaith.

Yn gywir iawn,

Bobi Jones

Cynigir y dylid sylfaenu Canolfan Ymchwil i Adennill Iaith o fewn polisi Iaith Pawb, a chynbelled ag sy'n bosibl o fewn adnoddau'r personnel sydd eisoes ar waith.

Bydd y Ganolfan Ymchwil hon yn gweithio o fewn gweinyddiaeth Swyddfa y Comisiynydd iaith. O dan yr oruchwyliaeth honno, bydd y fath ganolfan yn lled hunanlywodraethol, hynny yw o ran dulliau a gweddau gweithio'r rhaglen a gyflwynir iddi, ac yn ymwneud â phob rhanbarth. Ond bydd yn gwbl atebol i'r Comisiynydd o ran cynllunio ymlaen llaw, ac o ran adrodd yn ôl yn rheolaidd, fel y gwna'r Comisiynydd i'r Senedd.

Credaf fod angen – i ddechrau – tri ymchwilydd o leiaf – am rai blynyddoedd *dan arweiniad Cyfarwyddwr* – i fod allan yn y maes ac yn yr astudfa – pedwar felly yn chwilio mewn sawl cyfeiriad beth yw'r technegau gorau – i sefydlu canghennau CYD, i wella cyrsiau gyda chydweithrediad pawb o'r tiwtoriaid a'r athrawon, ynghyd â chysylltwr mwy eang – ac i drefnu gweithgareddau penodol ar raddfa genedlaethol, megis Fforwm, cynadleddau, a chyhoeddiadau.

Gellir datblygu hefyd rai cyhoeddiadau (megis y defnyddiau darllen a grybwyllir i gynorthwyo, a awgrymir yn *Problemau wrth Adennill Iaith*). Ond yn bennaf rhagwelir y bydd y Ganolfan Ymchwil yn barod i wasanaethu sefydliadau eraill megis cefnogi a golygu ar gyfer symudiadau gwirfoddol yn ogystal â'r Canolfannau iaith a'r Addysg Statudol, – yn ôl fel y bydd y gofynion perthnasol yn codi. Bydd llawer o hyn ar lefel cynghori, ond lle y bo gofyn, gellir cynhyrchu cyrsiau enghreifftiol.

Hynny yw, ni welir y bydd llunio cyrsiau iaith yn peidio yn y Canolfannau a manau eraill. Nid ydym yn sôn o gwbl am fonopoli, ond am wasanaeth cynghori. Byddent hwy yn gweithio ochr yn ochr ag ymchwilwyr yn y Colegau (myfyrwyr a staff) a allai weithio'n llawn-amser wedyn ar drefnu a gwella defnyddiau dosbarth; hwythau hefyd yn gysylltiedig â'r Cyfarwyddwr cenedlaethol drwy'r *Fforwm* a dulliau eraill.

Y rhain a ffurfiai gnewyllyn i Fforwm lle y ddi arbenigwyr fel darlithwyr a thiwtor-drefnyddion, a myfyrwyr ymchwil yn wirfoddol ac yn rheolaidd, i gyfarfod a thrafod ac i ffurfio coron i'r symudiad blynyddol hwn. Ysgerbwd o adeiladwaith llawn y Ganolfan a'i gwaith fyddai hyn. Tamaid i aros trafod.

Dyma ddosbarthiad o raglen waith i staff yn y *GANOLFAN YMCHWIL*:-

1. CYFARWYDDWR

Cynghorydd a Gweithiwr Academaidd

Trefnydd Ariannol

Llunio adroddiad blynyddol

2. YMCHWILYDD

Cyrsiau

Defnyddiau

Dosbarth Arbrofol

3. YMCHWILYDD

Sefydlu Grwpiau

sgyrsiau yn

genedlaethol

4. YMCHWILYDD

Golygydd Bwletin,

trefnu cyhoeddus-

rwydd a marchnata,

cynadleddau,

ymweld lleol,

gwersylloedd,

a chyswllt Fforwm,

a golygu cyrsiau gan

y Cyfarwyddwr uchod

ac Ymchwilydd 3.

Dylwn esbonio'n fanwl ym mha fodd y dylai'r rhain ddechrau'r gwaith, yn fy marn i.

Syniaf mai'r gwaith cyntaf yw bod y Cyfarwyddwr ei hun yn dechrau drwy sicrhau ei fod yn ceisio hyfforddiant *iddo'i hun* drwy ddod o hyd i'r Ganolfan orau yn y byd ar gyfer dilyn cyrsiau mewn Ieithyddiaeth Gymwysedig neu Ddidacteg Iaith. Yno, byddai'n treulio peth amser; a'i brif waith yno ar y dechrau fyddai gwneud arolwg o'r gwaith a fyddai'n berthnasol ar gyfer yr adennill Cymraeg.

Bydd Ymchwilydd 2 yn ymweld â'r holl Ganolfannau Iaith a holl Adrannau'r Gymraeg yn y Prifysgolion a'r Colegau yn ein gwlad, ac ag unrhyw sefydliad perthnasol arall sy'n dysgu'r Gymraeg i Oedolion, gan lunio arolwg ac adroddiad cymharol a manwl o'r gwaith sydd ar gerdded heddiw, o ran presenoldeb hyfforddwyr a disgyblion ynghyd â gwerthusiad ansoddol o natur y cyrsiau, nid o'r canlyniadau am y tro.

Bydd Ymchwilydd 3 yn llunio arolwg manwl o'r holl ganghennau presennol o Cyd, Clonc, Coffi a Sgwrs (neu beth bynnag yw'r enw, gan sicrhau cyswllt a disgrifiad byr o bob un). Bydd yn dechrau ar unwaith fapio'r ardaloedd lle y mae posibilrwydd sefydlu canghennau newydd, ac yn amlinellu patrwm o'r dulliau mwyaf effeithiol o adeiladu rhwydwaith pellach, gan nodi'r gwahanol

rwystrau. Gwna'n gyffelyb wrth feddwl am hybu cynlluniau ffrindiau-iaith. Bydd hyn yn tanlinellu dosbarthiad yr anghenion.

Bydd Ymchwilydd 4 yn llunio arolwg llyfryddol hylaw i'r Ganolfan, gyda chyfeiriad at lyfrau a chylchgronau hollol ymarferol i'r maes, ynghyd â rhestr o lyfrau darllen Cymraeg addas i ddysgwyr, a rhestr o lyfrgelloedd sy'n debyg o gydweithredu â'r Cynllun. Bydd hefyd yn ymorol i drefnu'r fforwm cyntaf. Bydd yn gwneud arolwg o'r math o ddefnyddiau a chyfranwyr felly i'r rhifyn cyntaf o'r Bwletin, ac yn trefnu'r cyfarfod cyntaf o'r Fforwm, gan gynnal Gwefan.

Yma ceisir amlinellu arwyddocâd a threfniant **FFORWM BLYNYDDOL ADENNILL IAITH.**

Bydd y fforwm yn cyfarfod yn flynyddol heb fod yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Er bod hyn yn gysylltiedig â'r Ganolfan Ymchwil, bydd y pwyslais ar y Bobl.

Fe'i trefnir dan awdurdod Comisiynydd yr Iaith, a allai, pe cytunid, gadw llygaid ar hyn o waith a fydd yn canolbwyntio ar adennill uniongyrchol a gwirfoddol (hyd yn oed lle y cyffyrddir â sectorau statudol).

Gwahoddir i'r cyfarfod holl swyddogion y Comisiynydd, a holl staff lawn-amser y Canolfannau Iaith yn ffurfiol. Yn anffurfiol, bydd pawb a chanddynt ddiddordeb mewn adennill iaith yn cael croeso.

Cesglir cymaint o'r adroddiadau unigol am waith ar y gweill a'u cylchredeg fis ymlaen llaw.

Gwaherddir trafod 'hawliau' ac 'arian' o ran cylchwaith priodol y Fforwm. A chyfyngir y trafodaethau i ddefnyddiau ac adnoddau Cymraeg i Oedolion.

Rhoddir adroddiad cenedlaethol am *nifer a lleoliad* y dosbarthiadau a'u cysylltiad â grwpiau 'Cyd' drwy Gymru, yn flynyddol. Cedwir hyn ar y Wefan.

Gofynnir i'r Canolfannau Iaith hyn amlinellu cynlluniau i'r flwyddyn wedyn am y materion canlynol a fydd o fewn eu tiriogaeth:

Canghennau CYD (Clonc, Clwm, Coffi a Sgwrs, Dal Pen Rheswm, ayb.)

Datblygiad Cynllun Ffrind-Iaith

Gweithgareddau cyhoeddus: Cwisiau Llyfrau, Eisteddfodau Dysgwyr, ayb.

Gwaith yr Eisteddfod Genedlaethol gyda'r Dysgwyr; cysylltiad Merched y Wawr ac unrhyw fudiadau eraill sy'n ymwneud yn anuniongyrchol neu'n uniongyrchol â hyrwyddo'r iaith ymhlith Dysgwyr.

Unrhyw fater arall.

Ar ryw olwg, y Fforwm fyddai canolbwynt y Flwyddyn i'r Ganolfan Ymchwil. Dyma gyfarfod penodedig annibynnol, ynghlwm wrth ymchwil nas bwriedir ar gyfer ar gyfer poblogeiddio neu bropagandeiddio, ond ar gyfer canolbwyntio ar waith ymarferol, ac yn nwylo pobl hyfforddedig. Dyma'r cyfle i'r Ganolfan gyfarfod â'r genedl, a rhoi adroddiad i'w 'Meistri'. Bydd y Fforwm yn diffinio cymeriad y Ganolfan Ymchwil fel gwasanaeth proffesiynol i adfywiad, a fydd yn ei hanfod yn wirfoddol o ran 'gweithredwyr am ddim' yn y maes, (ond yn y Canolfannau Iaith proffesiynol), ac felly'n wasanaeth agored i'r wlad. Ond tan gyfyngu'n benodol i'r Gymraeg, bydd yn agored i bob dim sydd ar gerdded yn wirfoddol i hyrwyddo adennill yr iaith ac a all gynorthwyo'r nod yna. Datblygir y Wefan yn wythnosol.

Sôn yr wyf am ddatblygu adeiladu Ymchwil yn strwythuredig ac mewn Canolfan sy'n meddu ar gnewyllyn digonol o staff i'w estyn o fewn profiad.

Crybwylla ambell feirniad '*Weithgareddau*' heb eu strwythuro, ac am amlhau *tueddiadau'r 'Mentrau' glaw*'. Dyma'n sicr y gorau o'r hen drefn a gynhelid ar sail yr hyn a gynhyrchid yn amaturaidd ddi-ymchwil yn null dechrau'r ugeinfed ganrif ac ynghynt. Byddai hynny'n tyfu'n ddigymhelliad o dan frwdfrydedd yr arweinwyr diwylliannol gorau mewn ardaloedd gwasgaredig. Ond er bod hynny'n dwyn ffrwyth ar y pryd, byddai symudiad a chanddo ddiben eglur a mesuradwy o fframwaith cynyddol yn fwy gwerthfawr ar flaen y cwbl. Ar hyn o bryd, y mae'r cynnydd cyhoeddus statudol yn hyn o faes yn darparu *posibiliadau i wasanaeth drwy'r iaith*, eithr heb lenwi'r bwllch o feithrin yr ewyllys a'r moddion i glymu dwy ochr y gwahân ieithyddol. Anghyfrifol yw optimistaeth ynghylch dyfodol yr iaith sydd heb gydio'r ymgyrch adennill yn gyfanweithiol yn ei gilydd. Ni ellir gadael hyn i 'Natur' nac i obaith di-sail ynghylch anocheledd cynyddu. Diau fod y 'Peuoedd Cymraeg' yn cyfrannu llawer iawn i naturioldeb toddi mewnfudwyr selog, unigol, canmoladwy. Ond mae gadael i'r rhain lithro ymlaen, i 'ffynnu', yn weithred sy'n ddall i'r Bwlch mawr. Hunan-dwyll hefyd yw dadlau nad yw'r Cyfrifiad Iaith swyddogol a rheolaidd a gynhelir yng Nghymru ddim yn dweud rhywbeth pwysig am yr angen am gynllunio adferiad uniongyrchol.

Ceisir dadlennu'r Cynllun hwn yn llawnach yn y tudalennau sy'n canlyn.

Trafodaeth ar Amlinelliad o Gefndir y Cynnig ar gyfer sefydlu Canolfan Ymchwil i Adennill yr Iaith

a hynny ar ffurf 'Cyfweliad' gyda'r Athro R.M. Jones (y llenor Bobi Jones).
[ffrwyth casgledig pedwar cyfweliad byr] Fe'i paratowyd gan Athro ifanc o un o Brifysgolion Cymru. Ef oedd yr holwr; ond un ydoedd sydd heb fod yn aelod o unrhyw Adran Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg]

Ymholydd:

Clywais o bell ar y ffôn tanddaearol eich bod yn awyddus i gynnig i Senedd Cymru mai da fyddai ychwanegu at gyfrifoldeb Comisiynydd yr Iaith y ddyletswydd o fod yn bennaeth ar Ganolfan Ymchwil i Adennill yr Iaith. Pam nad ydych chi am weld Prifysgol yn ymgymryd â'r dasg honno. Oni fuasai'n fwy priodol i sefydliad academaidd fod yn gyfrifol amdani?

R.M.J.:

Meddwl dw i am sefydliad cenedlaethol (nid rhanbarthol) o'r fath sydd (yn debyg i Amgueddfa neu i Lyfrgell) heb fod ar drugaredd prifathrawon o Gymreictod amryfal sy'n mynd a dod i Brifysgolion ac a all fod yn ansicr o'i barhad oherwydd 'gweledigaeth' cyd-academwyr medrus yn eu gwaith a all beidio â bod yn ymwybodol o'r lle sydd i iaith ein gwlad. Mewn gwirionedd, dylai Canolfan o'r fath fod mor rhydd ag sy'n bosibl, a chanddi deyrngarwch mor uniongyrchol ag y gellir i'r cyhoedd ym mhob parth drwy Fforwm blynyddol. Gwasanaeth heb fod yn rhanbarthol fyddai, nid sefydliad addysgol yn unig. Ni byddai'n rhan o unrhyw drefniant statudol arall (am fod iddo ddyletswyddau gwirfoddol yn flaenaf), a byddai'n rhydd felly i gyflawni gwaith o ran blaenoriaethau yn ôl gofynion yr iaith yn ei hargyfwng presennol parhaol.

Nod hollol annadleuol fyddai rhagdyb y fath Ganolfan, sef adennill yr iaith yn wirfoddol ar wefusau Oedolion ein gwlad, megis, yn lleol, athro yn wynebu dosbarth. Beth bynnag fyddai unrhyw anghytundeb, dyweder ynghylch model yr iaith lafar safonol, er enghraifft, neu'r dulliau cyflwyno, materion o fath y rheini fyddai'r Ymchwil ei hun, a gwrthrych trafodaeth gyson yn y Fforwm. O ran amcan, byddai'r gwaith yn y maes yn gyfyngedig i drafod unrhyw ddeunydd yn 'annibynnol ddiuedd' ar bob gwleidyddiaeth a hawliau, gan osod gerbron amlinelliad cytbwys pryd bynnag y codai dadleuon ieithyddol, fel y gellid dod i gasgliad yn y Fforwm.

Ymholydd:

Does dim addewid parhaol i'r un sefydliad. Allwch chi ddim sicrhau cynhالياeth i unrhyw sefydliad sy'n dibynnu ar arian.

R.M.J.:

Yn hollol. Ond sôn yr wyf am gysylltiadau'r fath sefydliad ag amllder o sectorau – y gwirfoddol, addysg statudol ysgolion, y Prifysgolion, a Mudiadau amrywiol. Mae'r Senedd yng Nghaerdydd wedi gosod teitl ardderchog ar nod yr ymgyrch i achub yr Iaith Gymraeg: fe'i galwodd yn 'Iaith Pawb'. Nid yw hyn yn glwm yn ddaeryddol, nac o ran dosbarth, na man geni, na hyd yn oed oedran, er fy mod i am ddadlau yn y Cyfweliad hwn â chi am drefn ac olyniaeth o fewn y 'Pawb' yna.

Wrth geisio llunio adroddiad yn awr i gymeradwyo 'Canolfan Ymchwil i Adennill yr Iaith, yr wyf am enwi Nod arall i'r fath ganolfan: sef '**Cymraeg i'r Lluoedd**' (*Welsh for the Masses*). Mae'n deitl paradocsiaidd efallai, i Ganolfan a fydd o raid, mae'n siŵr, yn ddysgedig barchus. Ond credaf fod y nod allblyg yna yn gwbl realistig, os yw'r Ganolfan yn mynd i fod yn addas i Gymru yn ei chyflwr presennol.

Mewn llyfryn sy'n cydreddeg ar y Wefan gyda'r adroddiad hwn, ac yn ganllaw i ran ohono, sef *Problemau Wrth Adennill Iaith*, trafodir yn fwy enghreifftiol y math o gydweithrediad mewn un cyfeiriad yr anelir ato gan y Ganolfan genedlaethol hon. Ar ddechrau'r llyfryn hwnnw datgenir fel nod: ***Credaf fod angen yr academiaeth orau i gynhyrchu cyrsiau ar gyfer y mwyaf anacademaidd.*** Nid oes ymgais byth i osgoi neu i wadu gwir anhawster y fath nod. Ond cam cyntaf yw yn ein meddylfryd, am mai Iaith Pawb yw'n maes. Ac nid oes chwaith ymgais i osgoi paratoi gwaith o'r radd uchaf na chysiau a allai fod yn fwy academaidd ar ôl y cam cyntaf hwn. Yr ydys yn mynnu wynebu'r 'Lluoedd' cyfrifol amryfal hyn o'r dechrau cyntaf â'r defnyddiau mwyaf priodol i Bawb.

Yn ystod y cyfnod paratoad ar gyfer Canolfan Ymchwil, bydd yn bwysig i'w Chyfarwyddwr nodi'n fanwl beth yn union fydd y gwahaniaeth rhwng y Dysgwr mwyaf academaidd a'r Dysgwr lleiaf academaidd. Yn y bôn, o ran gwahaniaeth Deunydd, ni bydd yna lawer. Ni ellir osgoi treigladau er enghraifft. Ni ellir ymwadu â chenedl enwau. Ni ddylid newid cywair yr Iaith Lafar Safonol. Ni bydd ymgais i symleiddio drwy ymyrryd â'r iaith ei hun mewn unrhyw fodd. Gyda dosbarthiadau mwy academaidd, bydd ychydig mwy o ryddid i ddefnyddio termau megis 'isgymal cynorthwyol,' 'berfau cynorthwyol', a.y.b.. Dichon y bydd rhythm y cwrs i'r academaidd ychydig ynghynt, er nad yw hynny'n sicr o gwbl.

Nid y Deunydd fydd yn wahanol, ond y Dull. Gellid esbonio rhai materion gramadegol mewn ffordd wahanol i'r academaidd. Ond at ei gilydd, os gellir dod i ben â llunio cyrsiau ac amgylchfyd o ymarfer i'r mynychwyr dosbarth hynny sy'n lleiaf academaidd, bydd y sylfaen ar gael ar gyfer Pawb. Un peth y mae'n rhaid ei osgoi fydd bod yn nawddogol mewn unrhyw ffordd.

Pobl 'arbennig' fydd pob un, beth bynnag eu gogwyddiadau a'u cefndir. Hwyl fydd y bobl a

ddysg yr iaith i'r pen.

Ymholydd:

Sylwais yn ddiweddar eich bod wedi sgrifennu nifer o lythyrau byrion i'r *Cymro* ar ôl y Cyfrifiad Iaith diwethaf. Wyddwn i ddim tan hynny mae arnaf ofn eich bod wedi gwneud gwaith academiaidd yn y maes. Beth oedd y cefndir i hynny? Gwelais hefyd, yn eich gwefan, eich llyfryn '*A fydd y Cymry Cymraeg mewn pryd?*' A oedd hynny'n berthnasol i'ch ymgyrchu presennol?

R.M.J.:

Mewn gwirionedd, yn y blynyddoedd 1958-1966, ymchwilio oedd fy ngwaith beunyddiol yn y Gyfadran Addysg yn Aberystwyth. Yr oeddwn i mewn swydd lawn-amser am y rhan fwyaf o'r cyfnod hwnnw ym maes ieithyddiaeth gymwysedig. Roedd gen i argyhoeddiad dwfn y dylai rhywun o Gymru o'r diwedd arbenigo'n academiaidd mewn Adfywiad Iaith. Dylai hwnnw neu honno fynd ati am flynyddoedd hir i ddarllen yn helaeth ym maes adfer iaith. Dylai hefyd gael ei hyfforddi'n broffesiynol yn y pwnc, a chwilio am y ganolfan orau yn y byd ar gyfer hynny. Ond 'welwn i neb ar y pryd yn gwneud peth felly. Dechreuais ddarllen cylchgronau rhyngwladol i chwilio am enwau pobl mewn gwledydd eraill a oedd yn sgrifennu'n hyddysg ac yn ymarferol amlochrog am y maes. Yr oeddwn yn awyddus i fynd i rywle – y lle gorau yn y byd pe gallwn ddod o hyd i'r fath le. Yr oedd yn rhaid ymbaratoi. A deuthum o hyd i'r Ganolfan ddelfrydol.

Ymholydd:

Hynny sy'n esbonio'ch blwyddyn sabothol 1963 yn Québec, mae'n debyg? A hynny sy'n esbonio'ch llyfr academiaidd cyntaf *System in Child Language* 1970. Gwyddwn i am eich blwyddyn yn Iwerddon ynghynt o lawer. Beth 'wnaethoch chi yn eich cyfnod cynnar yno ynglŷn â sefyllfa gyfoes yr iaith a chithau mewn gwlad Geltaidd arall?

R.M.J.:

Dim llawer o safbwynt eich diddordeb chi a fi nawr. Siom o safbwynt maes adennill iaith oedd Iwerddon, er ei bod yn ffrwythlon ac yn hyfryd mewn ffyrdd eraill. Rhybudd oedd. Ar y pryd, ces i fudd o safbwynt fy ymchwil y pryd hynny yn Chwedlau'r Oesoedd Canol: roedd y dadansoddiad systematig o fytholeg Wyddeleg yr Oesoedd Canol er enghraifft yn ddadleniad imi. Ond o ran yr anghenion cyfoes i'r iaith, fe fuais i'n ymweld â Phrif Swyddfa Cynghrair yr Wyddeleg (Y Gaelic League), ac yn holi cyfeillion lawer ac academyddion yn y Brifysgol drwy gydol y flwyddyn ynghylch eu hagweddau at ddyfodol yr Iaith ac at adferiad. Ond ces i dipyn o lwybr

seithug, a dweud y gwir. Yr oedd y symudiad o adennill gynt ymhlith addysgwyr brwdfrydig Iwerddon eisoes wedi cael ei hen ollwng ynghyd â phrif weledigaeth y Cynghrair, sef sefydlu cyfarfodydd gwirfoddol bychain i adfer yr iaith drwy ddsbarthiadau a sgysio lleol gydag oedolion. Collwyd y 'Polisi i'r Gwirfoddol'. Troes y symudiad adennill yn hytrach i roi ffydd mewn gwleidyddion diweddar a deddfau ac arwyddion ffordd ac eraill a chefnogaeth ariannol sylweddol gan y Llywodraeth, a phlant. Roedd hyd yn oed y protestio wedi hen flino. Rhannwyd y Wlad rhwng y Gaeltacht a'r Gweddill. Camgymeriad dybryd fu hyn yn fy marn i. **Roedd y gwleidyddion wedi cymryd drosodd.** Ond i rai gwleidyddion, cyfleustra oedd hyn oll i ennill pleidleisiau, mae arnaf ofn, ac i deimlo'n braf fodlon **heb ganfod y posibiladau gwir ymarferol a realistig i harneisio ac i asio Siaradwyr Gwirfoddol Rhugl mewn oed â Dysgwyr gwirfoddol.** Ac wrth gwrs, arall oedd fy mhrif ddiddordeb academiaidd i ar y pryd – a hynny ymhell iawn yn ôl yn yr oesoedd canol. Ac yno, am y tro, gadewais i'r trywydd modern a mynd yn ôl i Gymru heb sylweddoli y byddai'r angen diweddar hwn yn dod yn brif bwnc taer i'm bywoliaeth, ac am gyfnod, yn waith beunyddiol imi maes o law. Doedd yr ymweliad hir ag Iwerddon, sut bynnag, ddim yn berthnasol mewn gwirionedd. Roedd y gwleidyddion wedi methu â dygymod â'r Gwirfoddol.

Ymholydd:

Beth oedd y peth mwyaf buddiol i chi yn Iwerddon?

R.M.J.

Un o'r pethau annisgwyl 'wnes i yn Iwerddon oedd ymgysylltu â'r Ganolfan Uwchefrydiau Gwyddeleg a Cheltaidd. Roedd ganddyn nhw ar y pryd seminarau bob wythnos i staff, athrawon, darlithwyr, a myfyrwyr ymchwil o'r Prifysgolion. Pwerdy academiaidd oedd. A bu mynychu'r trafodaethau dwys hynny yn brofiad amheuthun emosiynol, a digwyddiad difrif a braf i ymchwilydd o fyfyrwr go las. Dyna'r math o gynnull yr hoffwn ei weld – yn wahanol o ran maes, dull, cefndir, ac ymarferoldeb – gyda Chanolfan Ymchwil Adennill yng Nghymru. Roedd arbenigwyr yn dod at ei gilydd i astudio pwnc mewn dyfnder, ond heblaw hynny, roedden nhw'n trafod yn dair-ieithog gyd-syniadau a chyd-feddyliau am broblemau academiaidd gyda'i gilydd a chydag ymwelwyr gwadd. Gwelais werth mawr cael Canolfan ymgynnull i Ymchwilwyr. Yn ddiweddarach o lawer yng Nghanaada gyda'r Cercle Linguistique de Québec fe ges i brofiad digon tebyg. Yno eto, caed trafodaeth – cyd-feddwl a chyd-fyfyrion am *problemau* academiaidd yng nghwmni arbenigwyr pwerus. Yn Québec, un tro fe ges i agor trafodaeth ar *Le verbe en gallois*, (a'i chyhoeddi mewn cyfieithiad wedyn ym Mwletin y Gwybodau Celtaidd). Profiad cyffrous oedd hyn i gyw o ysgolhaig. Meddyliwch am drafod egwyddorion a phatrymau Cyfundrefnau Ieithyddol iaith fel y

Gymraeg yn Québec gydag arbenigwyr a astudiaï theori adeiladwaith amserau berfau'n gyffredinol, dyweder. Caed llawer o egwyddorion cyfundrefnol y gellid eu rhannu gyda'n gilydd yn rhyng-ieithol mewn cymhariaeth. Dw i'n tybied, pan gawn ni yn y diwedd Ganolfan Ymchwil i Adennill yr Iaith yng Nghymru, y bydd yna sesiynau cyffelyb o drafodaeth bwerau yn bosibl mewn lle felly. Dylai fod... Ond yn Iwerddon, doedd yr ysfa gref i wneud rhywbeth gwirfoddol ymarferol ddim wedi aros i'r ysgolheigion, mae arnaf ofn..

Ymholydd:

Yn Québec, beth oedd eich prif waith?

R.M.J.

Roeddwn i wedi dechrau eisoes gartref ryw bum mlynedd ynghynt ar brosiect hir-dymor drwy astudio datblygiad disgrifiol cofnodedig o dwf iaith fy merch. Yr hyn y bwriadwn i ei wneud yn Québec oedd ysgrifennu esboniad systematig a mwy theoretig o'r defnyddiau a gasglaswn yn araf eisoes. Ond hefyd, yn Aberystwyth, eisoes roeddwn i wedi dechrau gwneud dau beth: cychwyn y prosiect hir-amser hwn ar iaith plant, a rhedeg hwnnw yr un pryd â phrosiectau byr-amser ar ddidacteg iaith yn fwy ymarferol ac amrywiol yn gysylltiedig â dosbarthiadau a chyrsgiau. Roeddwn i'n meddwl hefyd fod modd cynnal cysylltiad hir-dymor â'r byr-dymor, ac y byddai astudiaeth solet o iaith plant yn gefndir da i ddysgu ail iaith, drwy blethu'r prosiect 'mawr' â'r prosiectau 'bach'.

Ymholydd:

Mae'r cyfuniad hwn felly'n mynd yn ôl yn eich bywyd, yn bell iawn. A rhaid i mi gyfaddef gyda chywilydd na dw i eto ddim wedi darllen eich cyfrol ar iaith plant. Clywais amdani rywle. Ac fe gododd beth chwilfrydedd. Ydy hi allan o brint erbyn hyn? Ydy hi'n dal yn berthnasol i ni heddiw? Yr hyn a'm symbylodd i ddod i'ch cyfweld heddiw, mewn gwirionedd, oedd un cwestiwn a gododd ar ôl darllen y *Cymro* a'r llyfr hwy gynnoch chi ar eich gwefan bresennol *A fydd y Cymry Cymraeg mewn pryd?* A'r cwestiwn oedd – beth oedd yn eich ysgogi chi i fynd ar ôl y perwyl hwn nawr? Ac yna fe welais i rywle arall dri sylw adolygol wrth dwrian yn y llyfrgell am eich llyfr *System in Child Language*... Y pethau yna sy'n cyfrif pam dw i wedi dod yma i'ch gweld chi: llythyrau'r *Cymro*, y Wefan wedyn, a'r cyfeiriadau adolygol yna at y gyfrol academiaidd.

R.M.J.:

Roedd yna ***ddau hanner cyfredol i'm gwaith ym Mhrifysgol Laval*** yn y bôn, yn ddigon tebyg i'r paratodau yng Nghymru ymlaen llaw. Ar y pryd, ar y dechrau, nid systemateg, ac nid iaith

plant oedd pwyslais hanner cyntaf y gwaith. Yn gyntaf oll yn Québec, buais i'n dilyn yn unplyg, gyrsiau perthnasol i **Ddidacteg Iaith** yn amrywiol, ac yn darlithio fy hun ychydig yn y maes. Dyma'r hyn a alwn yn brosiectau bach. A'r fraint fawr oedd eistedd mewn seminarau gydag W.F. Mackey ar Deipoleg Ymarferion, Dadansoddi Cyrsiau gyda sylw manwl i *Voix et Images de France*, Graddio Geirfa a Graddio Patrymau Brawddegol, Arolwg o Ddulliau Dysgu, Defnyddio'r Ail Iaith fel Cyfrwng (Ymarferiad François Gouin), Cymelliadaeth, Lecture Expliquée, Grid Cwestiyna, Arolwg o Chwaraeon a Chaneuon Iaith, ac yn y blaen ac yn y blaen. Pob math o agweddau amryfal ar ganol gwaith ymarferol. Popeth â thraed ar y ddaear. Tybiwn mai Mackey ar y pryd oedd yr arloeswr pwysicaf yn y byd ar Ddidacteg Iaith.

Ond yn ail, a dyma'r digwyddiad pwysig (y prosiect 'mawr', yn ôl fel y tybiwn) – a chwbl annisgwyl o ran dull y cyflawniad: fe fuais i'n dilyn un astudiaeth ddwys a hir mewn gwirionedd ar *Psycho-systematique de langage*, sef arbenigo ar Ieithyddiaeth Gustave Guillaume mewn cyfundrefneg, yr ieithydd dyrus o Ffrainc. Yr oedd ef yn canolbwyntio ar yr hyn a ddigwyddai **yn y meddwl** wrth adeiladu iaith mewn llefaredd. Mae'r maes astudio hwnnw'n para i mi hyd heddiw. Disgynnodd arnaf fel gweledigaeth arhosol a fyddai'n gadael ei ôl ar fy mywyd i gyd. Hynyna a'm newidiodd i am weddill fy oes. Ysgolhaig dieithr ym Mharis oedd Guillaume ychydig cyn y cyfnod hwnnw. Rhyw hanner dwsin o brifysgolion yn y byd a wyddai am ei waith enfawr, gyda Québec yn anad unlle yn bennaf canolfan. Darganfûm fod dysgu iaith yn golygu mwy na dysgu arferiadau.

Ymholydd:

Pa gysylltiad oedd rhwng y pethau hyn yng Nghymru a'r hyn roeddech chi'n 'wneud gartref ymlaen llaw cyn mynd i Québec? Sut oedd hyn oll yn ymgysylltu â'ch gwaith yn Aberystwyth?

R.M.J.:

Pan ddechreuais yn y Gyfadran Addysg Aberystwyth ar gyrch Ymchwil, yr oedd y nod yn ymddangos yn weddol glir. Paratoi defnyddiau dysgu ar sail y wybodaeth ddiweddaraf mewn Didacteg Iaith ac Ieithyddiaeth Gymwysedig. A dyna ni. Ystyriwn ar y pryd fod angen imi wahanu fy nghynllun o ymchwilio yn ddeuol: yr ymarferol a'r disgrifiol. Fe fyddai'n brosiect amser-byr allblyg, gan gasglu defnyddiau mor fuan ag a oedd yn bosibl, ac yna brosiect amser-hir mwy personol gydag ymchwil hyd-oes yn araf deg heb hidio am gyhoeddi buan, ond yn araf drwyadl, dybiwn i. Byddai'r ail yn gwneud lles i'r cyntaf. Ond roedd ymchwilio mewn dyfnder yn rheidrwydd hefyd ochr yn ochr â gwaith mwy sydyn. Fe geisiwn hefyd (o ran cefndir) gyflwyno cynnyrch yr un pryd yn unol â darganfod a myfyrio uwchben pa fath o waith ymarferol ac arbrolfol a oedd ar gerdded ar y pryd mewn gwledydd eraill. Dyna'r gobraith. Yng Nghymru – ac fe gynyddodd

hyn yn Québec, – yr oeddwn wedi casglu gwybodaeth am banorama o ysgolheigion byd-eang. Bûm yn pwysu ymlaen llaw ar ddewis o fan-hyfforddi rhwng tri – MIT, Michigan Ann Arbor, a Québec.

Dechreuwn ymbaratoi drwy chwilio'r sefyllfa ryngwladol yn dechnegol.

Felly, mynd allan o Gymru 'wnes i, er mwyn casglu stwff ar gyfer cyd-Gymry. Gartref ynghynt, arweiniasai hyn fi at brosiect amser-byr dechreuol ym mhedair cyfrol *Cymraeg i Oedolion* a thair cyfrol *Cyfeiriadur I'r Athro Iaith*, a manion eraill mewn cyfnodolion. Arweiniai'r brosiect amser-hir yr un pryd at geisio gorffen y gyfrol *System in Child Language 1950-70*, fel tamaid i aros (gobeithiwn) bryd o waith academiaidd trymach.

Erbyn cwpla'r rhain, hyd yn oed *cyn* eu cyhoeddi hwy'n benodol, daethai'n amser imi adolygu'r dull penodol hwn gartref o weithio. Er fy mod yn gymharol fodlon ar y patrwm gwaith cyn belled ag y'i gwelwn, eisoes hyd yn oed ymhell cyn symud i Adran y Gymraeg, yr oeddwn wedi dod i ambell benderfyniad diwygiol ynghylch beth y gallwn i'i wneud mewn ieithyddiaeth, a pha fath o adeiladwaith a ddylai fod i Ganolfan Ymchwil go iawn yng Nghymru, pe gellid sefydlu'r fath beth yn lleol. Mae **patrymu adeiladwaith** Ymchwil llawn-amser mewn gwirionedd yn hanfodol i unrhyw waith llydan.

Yn gyntaf, ystyriwn fod y brosiect amser-byr (yn baradocsaidd) yn gorfod para byth, a thyfu'n fath o batrwm amser-hir o 'ddiwygio-a-diwygio' a gwella parhaol a dibaid o fewn yr un cyrch o 'baratoi-a-gwella' cyrsiau yn ymarferol. Yr oedd cynnwys y maes hwn yn fater i dymor mwy estynedig o lawer nag a dybiaswn, yr oedd yn amlwg, er y dylid yn gyson gyhoeddi darnau achlysurol o hyd ac o hyd.

Ond dechreuwn ystyried y brosiect amser-hir ar ddisgrifio Cyfundrefneg Iaith a Didacteg yn fater gwahanol iawn a sefydlog hefyd. Dyma'r gwaith y deuthum i'w fwynhau fwyaf yn academiaidd. Cawn bleser ymenyddol eithafol yn y dasg hon, a theimlwn fod y maes o '**Systemateg Bywyd**' oll hefyd yn ymagor ac yn addo diddanwch meddyliol o'r radd flaenaf imi yn sgil hynny. Pwy a wyddai i ble yr arweiniai hyn yn academiaidd? Wyddwn i ddim... Ond yr oedd i'r mwynhad hwn berygl mawr iawn. O safbwynt fy nheyrngarwch i ddyfodol yr iaith ynghynt, a'm dyletswydd i'm hegwyddorion cymdeithasol, gallai'r bywyd deallol hwn farwain i borfeydd pleruser academiaidd dieithr, ond hefyd yn awr – gwae fi – i esgeuluso'r math o wasanaeth i Gymru a oedd yng ngwraidd fy ngwneuthuriad bellach. Nid astudio academiaidd ynddo'i hun oedd y gwaith uniongyrchol i anghenion Cymru ac i mi. Yr oedd yr iaith yn fwy nag Academia. Bwystfil digyfeiriad yw Academia oni ddofir ef.

Fel y digwyddodd, sut bynnag, yn gwbl annisgwyl, aeth fy syniadau am y dyfodol oll yn jibidêrs. Yn ddisyfyd fel petai, disgynnodd arnaf swydd nas disgwyliwn ym maes llenyddiaeth Gymraeg, a wyrai fy niddordebau oll – o hyd o fewn gwasanaeth i'r Gymraeg wrth gwrs, – ond

mewn cyfeiriad cwbl wahanol, ac yn nes at hen hen ymrwymiad i lenyddiaeth. Hen, hen gariad – fy nghariad deallol cyntaf – oedd llenyddia. Nid af ati i'm hesgusodi fy hunan am y gwyrad hwnnw yn fy ngyrfa. Mae gennyf dipyn o gywilydd ohono. Gadewais beth dw i'n ei ystyried yn brif angen hunaniaeth Cymru. Cefais fy mherswadio ar y pryd gan fwy nag un (megis Gwenallt a Chaerwyn) i ymadael â'm gwaith ymrwymedig ieithyddol, i ddychwelyd at gariad cyntaf fy addysg bersonol... at Lenyddiaeth Gymraeg, ac i ymadael yn llwyr â'r dasg o Adennill Iaith. Ond ofnaf fod pobl heddiw'n ymadael ag Adennill Iaith er mwyn Statws Iaith.

Ond fel y digwyddodd hefyd, yr oedd yna elfen o barhad cysyniadol yn academiaidd rhwng iaith a llên. Dyna un cysur neu un esgus am y newid ar y pryd. Nid oedd gorfodaeth ddeddfol arnaf i ymadael yn gyfan-gwbl â'r syniadaeth a ddatblygodd gennyf ym maes System Ieithyddol a Ffurf Iaith. Cawn aros, fel yr ymddangosai, gyda'r math o waith academiaidd pontiol a garwn bellach, o fforio ym myd syniadaeth... ac ym maes cyfundrefneg a ffurfiau meddyliol. Ac yr oedd Adran y Gymraeg yn hollol barod hefyd i mi barhau ychydig ym maes academiaidd yr ail iaith, pe dymunwn. O leiaf, felly yr ymddangosai ar y pryd... Ond hunan-dwyll oedd.

Yr oedd yna un penbleth a arhosai. Yr oedd y rhaniad sefydledig ym mhatrwm fy ngwaith o'r blaen, cyn ymadael ag Adennill Iaith yn fwy na deublygrwydd syml amser-hir ac amser-byr. Rhaniad mawr oedd – o'r dechrau o ran hanfod – rhwng ieithyddiaeth *bur* (systemateg) ac ieithyddiaeth *gymwysedig* (neu ddidacteg). A daethai'n bryd i mi ddewis yn y fan yma hefyd. Ac ymddangosai fod *fy nyletswydd* gynhenid wedi bod yn fy nhynnu i unioni a symleiddio mwyfwy tuag at y **cyrсияu cymwysedig**. Tybiwn y gallwn barhau hyn o waith ymarferol o fewn fframwaith newydd. Byddwn yn methu mwyach â dal i ymchwilio o ddifri yn yr iaith ynghyd â llenyddiaeth, ond gallwn beidio â chefnu'n gyfan gwbl.

Ond roedd cynnal y gwaith amser-byr hwnnw mewn iaith i mi o hyd yn methu byw o dan yr un to â'r gwaith amser-hir mwy meddylgar a oedd gennyf yn awr mewn golwg. Ychydig o amser sydd gan bawb, bob amser. Ac i mi eisoes, cyn troi at y maes llenyddol, yr oedd yr ymlyniad newydd mewn adennill Iaith wrth efrydu a myfyrio uwchben ymchwil iaith hirdymor wedi dechrau rhoi bodlonrwydd academiaidd, gormod o fodlonrwydd ymenyddol a llai o gynnen nag yr oeddwn yn gyfarwydd â hi ym maes cyhoeddus a thrafodaethau agored ar y pryd yn addysg wleidyddol Cymru. Esgusoder fi wrth imi geisio disgrifio'r hunan-esgusodi hwn mor fanwl. Y pryd hyn chwalwyd fy astudiaethau ym myd iaith. Ofnaf y cam-ymlwybro.

Cefais gyfle dihafal a gwahoddiad i aros yn Québec ac ymdroi am weddill f'oes mewn academia mwy hamddenol a llai straenllyd nag yng Nghymru. Ond erbyn y diwedd, ni allwn aros yn hwy, gwyddwn y byddai ymadael â Chymru'n golygu chwyldro teuluol amhosibl. Dyma fi felly'n fath o 'ddychwelyd' yn ddaearyddol ac yn emosiynol i'r famwlad i ymchwilio llenyddol.

Ymholydd:

Arhoswch yn y fan yna nawr. Dw i am godi mater personol. Sylwais i ar rai sylwadau adolygol ar eich cyfrol *System in Child Language*. A gallwn i dybied ar ôl ichi dderbyn croeso mor hyfryd, yn canmol eich ymchwil arbenigol, fod yna gryn demtasiwn i chi barhau yn yr un diddordeb hwnnw, a pheidio â dod yn ôl i Gymru. A oedd hynny'n wir demtasiwn o gwbl?

R.M.J.:

Beth welsoch chi? Gwell i *chi* ddyfynnu hynny ar unwaith, yn arbennig os ydyn nhw'n awyru ychydig o ganmoliaeth! Mae'n wir imi gael cryn gefnogaeth dramor. Ond mi all hynny fod yn berygl mewn llawer ffordd. Bu rhai sylwadau a dderbyniais yn fath o seiren estron, mae arnaf ofn, yn denu at faes a ystyriaf bellach yn rhy esoterig yng Nghymru oni fyddwn i'n ei gymhwyso gryn lawer.

Ymholydd:

Debyg iawn. Sylwais tua 1970, ac fe nodais i ar y pryd rai sylwadau ar eich cyfrol, *System in Child Language*, ond ches i ddim cyfle i'w dilyn ymhellach. Dyma'r dyfyniadau a nodais i:

W.F.Mackey: 'Most writings on child speech have been simply records of language learning, the items being more or less systematically classified and commented. This book is something quite different. It is a general theory of child language of great significance. Although it takes into account both the author's detailed observation and almost everything of importance ever written on the subject, it is completely new and daringly original. It is also the most thoughtful and undoubtedly the most far-ranging study of child language I have seen.'

Roedd hynny'n seiren amlwg yn eich tynnu i gyfeiriad academiaidd wedyn. Ond gwelais sylw arall am y gyfrol. Fel hyn:

W.F. Leopold: 'I consider it a remarkable achievement. It applies new theories and methods to the field and will be of interest even to those who do not agree with them. I am particularly impressed with the thorough digest of facts presented in the international literature in addition to the report about his own observations. This is one of the few large works in the field.'

Ar ôl hynny, yn y cyfnodolyn *Language*:

John Hewson: 'Word-and-paradigm grammars are notoriously weak in the area of syntax, and syntactic grammars tend to ignore morphology; Jones forges the link between the two, and shows syntax as a simple and natural transcendence of morphology, a passing-out from the prison-house of the word, with its bound structures, into the open arena of recursive syntactic predictions.'

It is a remarkable achievement: it presents an interesting and coherent theory of language development in the child; it is generally broad in its over-view of the discipline of linguistics, not set in a narrow paradigm; it is full of detailed observation; and it shows a thorough grasp of the international literature on the topic.

It represents a step forward, a moment of progress in the mainstream of general linguistics.'

Dyna'r hyn a ddeffrodd fy chwilfrydedd o ddifri wrth imi ddarllen adolygiadau y tu allan i'm diddordebau arferol i. Ailddarllen nodyn ar y pryd o'r sylwadau yna oedd yr hyn a ysgogodd fy chwilfrydedd i ddod i'ch cyfweld chi heddiw. A allech chi ddweud rhagor am y math hwn o groeso?

R.M.J.:

Na alla. I mi, mae'r byd hwnnw yn perthyn i fywyd arall. Ydych *chi* eich hun wedi gweld y llyfr?

Ymholydd:

Meddwl rown i a oedd rhywbeth yn y gwaith roeddech chi'n 'wneud yn y chwedegau sy'n berthnasol o hyd i'n cyfnod ni, ac i'n trafodaeth ar Ganolfan Ymchwil. Yn wir, rhaid imi addef yn waeth, nad oedd darllen y sylwadau amdani ddim wedi fy nenu i fynd ar ôl llyfr mor gyfyngedig bynciol wedyn am fod y peth yn swnio ychydig yn esoterig ac mewn maes diert h i mi.

Rhaid imi gyfaddef, er imi sylwi tua'r pryd yna mewn catalog llyfrau am y llyfr hwnnw gynnoch chi o dan Wasg y Brifysgol ar Iaith Plant, 'down i ddim wedi darllen y gyfrol.

Y ffordd y sylwais i eto ar enw'r llyfr hwnnw oedd clywed gan gyfaill eich bod chi wedi gwneud eich traethawd Ph.D., ar *Astudiaeth o Iaith Plentyn hyd at Dair Blwydd Oed*, 1965, yn rhannol yn Gymraeg. 'Wnaethoch chi ddim cyhoeddi'r rhan yna. Ond rown i'n gweld bod gennyh chi o leiaf ryw ddiddordeb od mewn iaith plant yn ogystal ag oedolion.

Ond beth dych chi'n meddwl yw'r cysylltiad i ni yng Nghymru heddiw rhwng maes fel yna sy'n ymddangos yn addawol i addysg efallai a'r datblygiad o Ymchwil Adennill yng Nghymru?

R.M.J.

Odid ddim efallai, yn uniongyrchol. Mewn ffordd, y mae'r rhan Gymraeg o'r astudiaeth, nas cyhoeddwyd, – sef yr astudiaeth o dwf un plentyn penodol, – pe bai'n cael ei ddatblygu'n benodol mewn rhai cyfeiriadau – yn llawer mwy arwyddocaol a defnyddiol i ysgolion babanod. Ond dwi'n credu fod meysydd eraill ar hyn o bryd yn fwy addawol i'n sefyllfa gyfoes. Roedd yn rhaid ailfeddwl cyfeiriadau. Yn sicr, roedd yna lawer iawn yn Québec a oedd yn berthnasol o hyd i'n cyfnod ni yng Nghymru. Ond, i mi, roedd perygl i'r Academaidd drechu'r Ymarferol argyfyngus.

Ymholydd:

Mae'n amlwg pam rych chi wedi mynd yn sylfaenol frwd i ddadlau bod angen *difrifoldeb* mawr ynghylch Canolfan Ymchwil o ryw fath mewn Adennill iaith.

R.M.J.

Ydw'n bendant iawn. Mwy o wir ddifrifoldeb.

Ymholydd:

Rych chi fel petaech chi'n awgrymu y buasai sefydlu peth felly gan y llywodraeth, – ond yn rhydd o ran gweinyddiaeth, o leiaf, heb fod y llywodraeth ynghlwm yn academiaidd ymyrrol ynnddi, – y byddai hynny o leiaf yn adlewyrchu difrifoldeb Cymru ynghylch adennill yr iaith, yn llawer amgenach na phrotestio diddiwedd a cheisio hawliau a Chymraeg cyhoeddus amlwg ac ymgyfyngu i wleidyddiaeth allanol a statws. Ac eto, i ba raddau y dylid dal i wneud rhagor o bethau yn yr un dull anwleidyddol ag a fu gynnoch chi cyn y chwedegau cythryblus? Beth sy gynnoch chi mewn golwg?

R.M.J.:

'Dwi'n beio dim ohonoch chi am beidio â mynd ar ôl y llyfr ar iaith plant. Mae'n debyg mai dyna'r llyfr trymaf 'sgrifennais i erioed. Dw i'n meddwl ei fod yn henffasiwn hefyd nawr. Ond rych chi'n iawn ynghylch fy marn i bellach amdani. Ddaw fawr ohonon ni yng Nghymru yng nghyfeiriad adennill os na fydd digon o iau gynnon ni i wneud rhai pethau eraill, sydd hefyd yn dra academiaidd, – ond ymarferol hefyd – er fy mod i'n gallu synied o hyd am fframwaith gwahanol iawn i'r math hwnnw o waith yn y dyfodol.

Ymholydd:

Eich gweld chi dw i dipyn yn annelwig neu'n amhendant ynghylch beth fydd cynnwys gwaith y fath Sefydliad a allai fod yng Nghymru. Allwch chi ddim disgwyl i bobl y maes ei hun heb fawr o brofiad ond ar y ffas wybod beth 'ddylai'r paratoadau technegol fod y tu ôl, na sut y byddai rhaglen waith ymarferol o'r math academiaidd-weithredol yn cael ei chynllunio. Fel y gwelwch chi, wrth beidio â darllen eich llyfr trwm academiaidd, (*gan chwerthin*) down innau ddim wedi gwneud fy ngwaith cartref yn iawn chwaith fel paratoad ar gyfer y cyfweliad hwn.

R.M.J.: (gan ymuno yn y chwerthin)

Mae hynny wrth gwrs yn anfaddeuol!

Ymholydd:

Mae un peth arall sy'n fwy anfaddeuol byth. Mae a wnelo â'm diffyg paratoad ar gyfer fy mhrif gwestiwn. Nodais i ar bapur, cyn dod, deitlau rhai o'ch llyfrau Iaith eraill yn rhestr Huw Walters o'ch gwaith. Hoffais i'r teitlau'n burion, ond 'ches i ddim cyfle i ddarllen yr un bron.

R.M.J.:

Rych chi'n mynd yn Gymreiciach fel adolygydd bob tro yr agorwch eich ceg!

Ymholydd:

Mae'r rhan fwyaf allan o brint wrth gwrs. Maen nhw'n perthyn i oes arall. Neu efallai y tybiwch mai eu claddu yn Academia sydd orau, gorau po gyntaf.

R.M.J.

Mae hynny'n wir.

Ymholydd:

Ac eto, 'dw i'n cael yr argraff eich bod yn rhoi llawer o bwyslais ar **y wedd academaidd ar adennill yr iaith**. A hyn yw fy mhrif gwestiwn Roedd gynnoch chi amrediad eang – a rhy amlochrog – yn eich patrwm gwaith. Ond a oedd 'na ryw fath o batrwm clir i chi, rhyw fath o arolwg amryfal sy'n awgrymus ar gyfer y Gymru gyfoes? Hynny yw, a oedd yna yn eich patrwm gwaith a chyhoeddi tymor-byr ryw awgrym perthnasol i strwythur gwaith adennill yn y cyfnod presennol? Beth oedd y wers 'ddysgasoch *chi*?

R.M.J.:

Yn sicr, 'dw i'n anfodlon iawn ar yr osgoad cyffredinol adnabyddus heddiw yng Nghymru mewn Ymchwilio perthnasol ymarferol. Ble ar hyn o bryd mae'r astudiaethau difrif ar faes adennill yr iaith yn ymarferol fanwl ac o ran gwerth ystyrllon (uwchlaw'r 'ystadegau' bondigrybwyll tros-dro)? Rydyn ni mewn perygl o fynd yr un ffordd ag Iwerddon, a gadael popeth i brotest a phlant a hawliau. Mae yna duedd gyfleus i osgoi gwaith caled, a gwaith uniongyrchol berthnasol adeiladol. Mae yna duedd i esgeuluso bod o ddifrif a dibynnu ar synnwyr-bawd. Mae pawb yn dod o hyd i esgus i beidio â meddwl am amlochredd, dyfnder, ac ymroddiad ymrwymedig ym maes astudio'r ymarferol. Dyna bwll-terfyn gwleidydda. Ac mae hynny wedi mynd yn Gymreig braidd. Gallwn

ymdopi fel hyn yn amaturaidd, meddan nhw. Mae yna arferiad dwfn iawn iawn erbyn hyn i drosglwyddo'r cyfrifoldeb am adennill yr iaith, i awdurdodau 'eraill'. Dyma etifeddiaeth protestio *Tynged yr Iaith*. Negydd yw hynny.

Roedd y Cynghorion Gwirfoddol i Adennill yn gyfan gwbl ar goll wrth baratoi polisi.

O safbwynt lledaeniad yr iaith, mi gredaf i mai rhaid yn hytrach o'r diwedd ennill ewylllys, gan hybu cefnogaeth o fewn y sector gwirfoddol, ac ateb yr alwad yn broffesiynol ymhlith y bobl. A 'wnawn ni ddim o hynny, heb ein bod i gyd yn rhan o'r ymgyrch. Ac yn rhan o ymgyrch trefnus, realistig, a hyddysg. Diddorol yn ein cangen CYD yn Aberystwyth, heddiw, oedd sgysio gyda phâr o Fydroilyn a oedd hefyd yn mynychu grwpiau cyffelyb yn Llambed, Aberaeron, Ceinewydd, ac Aberteifi. Mae'n siŵr fod llawer o benderfyniad gan rywrai o'r fath yng Nghymru o hyd. Mae gormod o bwyslais blinderus ledled y wlad ar 'statws', drwy bobl eraill, yn gamarweiniol ac yn afiach i'r seicoleg genedlaethol. Mae gormod o bwyslais o hyd ar brotest sydyn, a gormod o bwyslais ar achwyn ynghylch pobl glaeaf. Dyna yw adeiladu awyrgylch adfeiliol o negyddiaeth fyrdymor. A does gan y rhan helaethaf o'r Cymry Cymraeg ymrwymedig yr un amgyffrediad o'r hyn sy'n digwydd yn *wirfoddol*. Ond ble mae'r ymgais i drefnu a sefydlu grwpiau gwirfoddol?

Mae rhyw brotestiwr yr wythnos hon wrthi'n gweiddi am i gyfarfodydd gan y Cynghorau Lleol fod yn ddwyieithog. A rhywun arall yn gweiddi acw am atal adeiladu tai rhag i bentref dderbyn mewnlif i ddistrywio'r iaith. Pobl dda i gyd. Syniadau da yn sicr. Ond hoffwn i weld y protestwyr hyn oll allan yn eu canghennau yn cloncian gyda dysgwyr yn nannedd y patrwm sefydledig o rwyddineb ac ysgafnder, yn creu awyrgylch newydd o adennill. Hoffwn eu gweld nhw'n rhesymol gefnogi'r syniad o feddu ar Ganolfan Ymchwil ymarferol, wedyn. Hoffwn weld sefydlu trefn lawer mwy cadarnhaol broffesiynol. Bydd yn rhaid cael cydweithrediad rhwng symudiad gwirfoddol a Chanolfan Ymchwil sefydledig. Nid ydym eto wedi cymryd o ddifrif sefydlu grwpiau cloncian gan y Cymry brwd oll i'r Dysgwyr, a hyn oll mewn atrefnu Adeniliad fel egwyddor i fod yn rhan o ewylllys wirfoddol y bobl sy'n gysylltiedig â Mudiad proffesiynol. Buom ni'n chwarae Adennill o bell, yn rhy hir.

Byddai adeiladu trefn newydd yn arwydd clir o ddifrifoldeb proffesiynol, ac yn gyfle rhyngwladol i arloesi ac arwain. A dylid sicrhau cysylltiad annatod a gwirfoddol rhwng pob gwedd fewnol ar yr ymgyrch i Adennill. Rhaid esbonio'n gliriach i'r awdurdodau hefyd sut y mae PAWB yn cael rhan yn yr ymgyrch, ac ym mha ffordd yr ydym heb esgus i ddechrau arni *nawr*. Dim ond diogi syniadol a gweithredol sy'n ein hatal.

Ond carwn i grybwyll un peth arall. Ar hyd y blynyddoedd, buais yn gweld ugeiniau o athrawon dawnus wrth eu gwaith, rhai yn gwbl athrylithgar, ymroddgar, a llawn dychymyg ac egni. Profais i gwmni siaradwyr gwirfoddol yng nghyfarfodydd Cyd. Dysgais i lawer iawn ganddyn nhw

i gyd mewn llawer iawn o amgylchiadau, a theimlwn yn ysbrydoledig wrth gael y fraint o fod gyda nhw. Eisoës, mae gennym ganolfannau iaith o Oedolion sy'n gwneud gwaith ardderchog (ond yn gyfyngedig wych). Adenillir drwy adennill uniongyrchol cyfyngedig – ychwanegu Cymro Cymraeg newydd at Gymro Cymraeg parod. Ond teimlwn yn wirioneddol grac ynghylch y diffyg gwerthfawrogiad o hyd gan y bobl sy'n llunio polisi, y diffyg parch, a'r anwybodaeth sy'n dal ynghylch llawr y frwydr ymhlith Iaith Pawb. Ni wyddant odid ddim ynghylch eu hangen dwys gwirfoddol nac am y darlun ehangach yn y gymuned. Ni roddant gefnogaeth swyddogol chwaith, nac adnoddau, na'r cyfarpar meddyliol a defnyddiol a ddylai fod yn fraint i'w darparu yn yr ymroddiad swyddogol. Dydyn ni ddim yn haeddu ein hathrawon a'n tiwtoriaid a'n trefnwyr presennol **na'n siaradwyr gwirfoddol**, dyna'r gwir. A dyw'r awdurdodau, hwythau, ddim yn chwilio'n graff yn y lle iawn am bolisi cadarnhaol.

Ymholydd:

Maen nhw, a chithau yn eich ysgrifau yn y *Cymro*, yn sgythru ar ôl **Polisi** o hyd. A dw innau eisiau trafod Polisi ymhellach ymlaen. Ond dwi eisiau sticio am foment gyda'r Ganolfan Ymchwil. Tybed, am foment, a gawn ni fynd yn ôl i drafod eich gwaith chi eich hun yn y maes academaidd hwnnw? Ar wahân i'ch llyfr ar *System in Child Language*, bu gynnoch chi gynt ddau fath o gyhoeddiadau ymchwil yn y maes. Mae rhai o'r rheina yn gyrsiau dysgu iaith, a rhai ohonyn nhw'n disgrifio ac yn dadansoddi'r pwnc o adennill uniongyrchol. Dwy ran. Y theori a'r ymarfer. Oedd gynnoch chi unrhyw gynllun *ymwybodol* ar gyfer eich gwaith o fewn cyd-destun Canolfan Ymchwil? Dw i'n teimlo bod y cyfuniad hwnnw'n gyfuniad ymarferol iawn.

R.M.J.:

Oedd, o fath. Ar y pryd. Rhaid i mi gyfaddef fy mod i wedi bwriadu llunio prosiect hwy o lawer nag a gyflawnwyd. A bysai hynny hefyd wedi bod yn ddeublyg. Ond dwedwch chithau'r gwir: sut y gwnaethoch *chi* gasglu mai dwy ran oedd i'r prosiect?

Ymholydd:

Doedd gen i ddim clem sut yr oedd bwrw ymlaen heddiw i'ch holi chi am yr amllder o ddisgyblaethau a oedd yn gwasanaethu didacteg iaith; a thybiais efallai mai mynd ar ôl rhai o'r cyhoeddiadau fyddai'n adlewyrchu'r twf yn eich profiad chi. Buais i'n cribo drwy lyfryddiaeth Huw Walters ar eich gwefan. Efallai fod eich cynllun chi yno'n awgrymu'r math o ddyfalwch yr hoffech chi ei weld gan y Ganolfan Ymchwil maes o law. Rown i'n *gweld cyrsiau* yn eu plith, ac yn *gweld cyfrolau disgrifio*. A oes yna batrwm gwaith fan yna mewn golwg eisoes yn y dechreuadau fu

gynnoch chi'n brosiect i'r cyhoeddiadau hynny, prosiect sy'n mynd yn ôl dros rai blynyddoedd bellach? Neu ydyn nhw i gyd yn rhy henffasiwn inni weld hynny ynddynt erbyn hyn?

R.M.J.:

Mae hynny i gyd yn hen hen hanes erbyn heddiw, mae'n wir. Ond dichon fod y strwythur pynciol neu ddisgrifiol yn aros yn ddigon awgrymus, yn negyddol ac yn gadarnhaol.

Yr hyn dw i'n ei weld ar hyn o bryd yng nghyfnod *System in Child Language* gynt oedd bwrw prentisiaeth mewn academeidd-dra yn unig. Ond roedd eisiau i'r academeidd-dra fod yn fwy perthnasol i'r polisi. A hyn yw'r sefyllfa ar hyd yr amser o gyfnod *Tynged yr Iaith* ymlaen: dod o hyd i **bolisi digonol i ateb yn union lydanrwydd eithafol yn y cilio**. Sefyllfa yw sy'n ein gorfodi ni i fod yn nes at y bobl sy'n adenill yr iaith yn uniongyrchol. Dyna pam yr wyf yn codi o'r newydd heddiw yr angen am ystyriaeth o bolisi gwirfoddol ac o ewyllys. Bûm i'n rhy academiaidd fy mryd yn y cyfnod hwnnw i fod yn atebol i'r dasg. Cafwyd ymgais gen i i roi pwyslais ar gywiro'r prinder academiaidd ac elfenoldeb y ddarpariaeth gyhoeddedig. Cafwyd ymgais gen i tua'r adeg yna i gyhoeddi dyrnaid o erthyglau academiaidd yn *Bulletin of the Board of Celtic Studies* a *Studia Celtica*; ac ymgais gan bwyll i lunio rhaglen lawer mwy ymarferol ac ysgafnach na'r 'gyfrol fawr'. Pethau fel *B.* 1963, 'Gramadeg Cenhedlol a Graddio'r Iaith'; *B.* 1966, 'Tympau'r Modd Mynegol'; 'Ffurfiâu Cwmpasog y Ferf'; *B.* 1974 'Berfau Cynorthwyol'; *S.C.* 1971, 'Na and the comparative in Welsh'; *S.C.* 1973/74 'The Welsh Indicative'; *S.C.* 1976 'The Article in Welsh'; *S.C.* 1977/8 'The Welsh Subjunctive' (hefyd yn 1980 *Langage et psychomécanique du langage*, presses Univ. De Lille). Pwyntiau unigol pwrpasol: bara menyn academiaidd. Ond rhy bell oddi wrth ymarfer. Ond dechreuais droi tuag at 'Athrylith yr Iaith Gymraeg' *Trafodion y Cymmrodorion* 1965; 'Situational vocabulary' yn *International Review of Applied Linguistics* 1966; 'How and when do persons become bilingual?' yn *Description and Measurement of Bilingualism* gol. L.G.Kelly, University of Toronto Press 'Welsh bilingualism: four documents' yn *Trends in linguistics: studies and monographs*, The Hague 231-43. Oferedd efallai i gyd, ddywedwn i heddiw. Maen nhw bron i gyd wedi dyddio. Dyna sut bynnag fwrw prentisiaeth ychydig bach yn ymarferol ar y pryd. Dyna'r math o stwff academiaidd y pryd hynny a oedd yn angenrheidiol, dybiwn i, i gyw o ymchwilydd a oedd yn ceisio adeiladu cefndir ym maes ieithyddiaeth. Ond dyna fi wedyn, tua diwedd y cyfnod hwnnw, yn troi fy ngolygon gan bwyll bach at faes yn nes at bolisi Adennill: 'Sut i Adfer y Gymraeg' *Traethodydd* 1980 (cyhoeddwyd crynodeb yn *Y Faner Medi*; dyma'r 'ysgrifau polisi' uniongyrchol newydd ar y pryd a ysgogodd y cyfarfod yn Aberaeron i sefydlu CYD); gydag *Emrys ap Iwan a'r Iaith Gymraeg*, Cyngor Sir Clwyd, 1984 yn gefndir; a'r ddadl lawn gyntaf ar 'Cymraeg llenyddol llafar' a gafwyd wedyn ar gyfer dysgwyr yn benodol yn y *Traethodydd* 1985, a phethau ymarferol

cyrsiol a dadansoddol i ddysgu'r Gymraeg i Oedolion. Yr wyf yn crybwyll hyn i gyd fel cymwysterau gan un sy'n gyfarwydd â gwahanol agweddau a phroblemau'r maes, gan un hefyd a ddysgodd beidio ag ymbellhau oddi wrth 'Iaith Pawb.' Allwn ni ddim osgoi'r math yna o stwff o hyd heddiw, ond gan ymdroi hefyd o gylch y sector gwirfoddol yn bennaf, ac i wasanaethu'r Canolfannau Iaith ymhellach. Dylid disgwyl o leiaf un person mewn Canolfan Ymchwil arfaethedig yn genedlaethol i daclo o hyd dechnegolion y maes academiaidd – mewn rhyw fath o ddyfnder – ryw ddisgyblaeth arbenigol hir-dymor efallai, sy'n golygu ei fod yn drwythedig yn ysgolheictod perthnasol rhygwladol yr oes hon. Ond mae yna faes anacademaidd hefyd i eraill yn ogystal ag un academiaidd. Bydd eisiau i Ganolfan Ymchwil ddiogelu cyswllt agos, rheolaidd â'r gweithwyr yn y stŵr a'r steics ar lawr y maes; ac mae hynny'n bosibl. Bûm i ar fy mhen fy hun am gyfnod yn ceisio cydio mewn gormod o goflaid sy'n ofer ac yn amhosibl heb grŵp o gyd-weithwyr.

Ar gais, fe luniais i waith ysgafnach, fel 'Try Out Your Welsh,' Coleg Harlech, 1961 (i'r rhai a ddilynodd gwrs 1960), a'r gyfres o bum ysgrif yn *Barn* 1964 ar yr iaith, a saith ysgrif yn 1984, a phedair arall i'r un perwyl yn 1996 a thair ysgrif arall yn 1997; a'r gyfres o bum ysgrif ar adfywio'r iaith yn *Y Faner Awst-Tachwedd* 1985. Jobsys dros dro sydd hefyd yn hanfodol bob amser. Ci yn rhedeg o gwmpas y ffair. Mae'n debyg fod eisiau Cylchgrawn ysgolheigaidd a '*Newyddion*' erbyn heddiw, yn broffesiynol, yn y maes i fod yn gefn i diwtoriaid, athrawon, a threfnyddion, ac yn gefn safonol i'r Senedd hithau wybod beth sy'n digwydd bellach yn ymarferol yn y byd real, fel y gallan nhwythau helpu yn bersonol uniongyrchol, ie, a mynd i blith y Bobl, yn bresenoldeb yn y wlad. Roedd yna lawer o ddidwylledd yno.

Ac yna lluniais *Geiriadur Lluniau* 1969 i blant; a golygu *Cymraeg trwy Ddamhegion* 1982. Parheuais i adolygu cyfrolau gan weithwyr eraill ar ddwyieithedd 1982, 1983, 1986, 1990. Dylid disgwyl y bydd bob amser, gredaf i, mewn Canolfan o'r fath – o fewn gwlad fel Cymru – gysylltiad mwy hylaw a chyhoeddus, a'n bod gyda'n gilydd oll i lawr yn yr arena, ond yn cyfathrebu gyda'r cyhoedd. Hynny yw, mi dybiwn i mai da iawn yng Nghymru fyddai cyhoeddi Bwletin rheolaidd o nodiadau i athrawon a charedigion y maes i gadw golwg ar ddatblygiadau – ar y We dyweder, heddiw, os gellir hysbysebu'n helaeth am ei fodolaeth. Rhaid i Ganolfan gadw llygad ar yr holl faes addysgol iaith-adferol, mewn cynadleddau achlysurol gartre a thramor. A chynnal Fforwm i'r Cyhoedd yng Nghymru. Fe fydd felly wybodaeth ar gael ar bob un safle adennill yng Nghymru. Ac eto, rhaid peidio â mynd ar goll yng nghanol y dyrfa gymysg, nac yn gudd yn yr astudfa.

Ymholydd:

Dw i'n cymryd bod y flwyddyn 1963 yn L'universit  Laval, Qu bec felly wedi bod yn drobwynt i chi'n bersonol. Fe wnaeth hyn arwain at adnewyddiad personol i chi ac at gyfle ar y

pryd i gyflawni peth o'r prosiect cynlluniedig ar y gweill o ddifri.

R.M.J.:

Do: fe ges i fraint fawr ar y pryd. Yn Québec, yr oedd yna bum Adran Ieithyddiaeth. Buais i'n dilyn pob math o weddau ar y pwnc ynddynt: Hanes Dysgu Iaith, Dysgu Sefyllfaol, Dosbarthu Driliau, Llunio Model o Dwf yr Iaith, Dysgu Cynnar, Profi ac Arholi Cyfundrefnol, ac eraill. Roedd hyn oll yn baratoad rhagorol i fywyd o ymchwil helpfawr, dybiwn i. Ond ym myd Adennill Iaith, ar ryw olwg, ychydig yn wasgarog fu pethau, heb y Cynllun adferol 'mawr' yn rhedeg drwy'r canol. Ar y pryd, doedd yna ddim llawer o brofiad gartref yng Nghymru yn y sector adeiladol, dim ond protestio a phrotestio. Ond cripiodd y gwaith cadarnhaol ac ymarferol ymlaen fwyfwy tuag at adeiladwaith polisi, dulliau, a threfniant ymarferol, wrth sylweddoli bod cymhwyso paratodau eang yn gorfod wynebu polisi ymarferol o'r diwedd wedi'i gynllunio o fewn fframwaith ehangach na phleidleisiau gwleidyddiaeth. Ond nid gwaith oedd i'w wneud yn gyfyngedig nac ar frys.

Ymholydd:

Dw i'n dal i sylwi yn rhestr Huw Walters ar y cyhoeddiadau hyn yn bwrw'r rhwyd yn lletach-letach ac yn fwy penodol tuag at oedolion (dw i'n sôn amdanyn nhw yn y cyfnod tua 1962: *Graddio Geirfa*, Aberystwyth, 1962). Dechrau cyfres gyfan o ryw ddeugain o ysgrifau-nodiadau sy'n parhau yn *Yr Athro*, o Fedi 1962, 'Amcanion, Graddio fel egwyddor, graddio geirfa' ymlaen yn fisol, i'r olaf yn Rhagfyr 1966 'Hanes diweddar dysgu ail iaith'. Roedd hynny'n golygu ichi gyhoeddi ychydig yn rheolaidd. Yna yn 1963: *Cymraeg i Oedolion: Aberystwyth Oral Welsh Course for Adults*, 39 tud. (dyma'r rhagflaenydd arbrol, debyg gen i, a oedd yn cylchredeg cyn y pedair cyfrol fwy gorffenedig gyda'r un enw). Dyma symud fwyfwy dybiwn i tuag at feddwl am yr angenrheidiau a godai o fewn y broblem o lunio cyrsiau, yn arbennig gyda chyrsiau *Cymraeg i Oedolion*.

R.M.J.:

Cyhoeddwyd y cwrs hwnnw, do, ac fe'i dosbarthwyd yn 'breifat' gan Y Gyfadrn Addysg Aberystwyth fel cwrs arbrol ledled Cymru. Ar y pryd, roedd ymarfer yn y dosbarth, a chydweithio ag athrawon eraill mewn modd beirniadol yn gaffaeliad cydweithredol imi. Mewn gohebiaeth â'r holl athrawon cysylltiedig yn yr arbrawf, casglwyd cywiriadau ac awgrymiadau, ac fe'u corfforwyd ar gopiau newydd. Wedyn, fe'i diwygiwyd drwy drafodaeth ac fe'i cyhoeddwyd ar y farchnad yn gonfensiynol mewn cwrs datblygedig mewn pedair cyfrol:

1964: *Cymraeg i Oedolion*, Cyfrol 1. Llyfr yr Athro, Gwasg Prifysgol Cymru, 121 tt.

1965: *Cymraeg i Oedolion*, Cyfrol 1. Nodiadau'r Dysgwr, 92tt.

1965: *Cymraeg i Oedolion*, Cyfrol 2. Llyfr yr Athro, 121 tt.

1966: *Cymraeg i Oedolion*, Cyfrol 2. Nodiadau'r Dysgwr, 104 tt.

Rhyw fath o gerrig coffa yw'r rhain bellach a fwriadwyd i geisio cyflwyno model cyson o Gymraeg Llafar Safonol, graddio patrymau, graddio geirfa, ymarfer patrymau a rhai ymarferion eraill. Ond at ei gilydd does dim modd defnyddio'r cwrs hwnnw o gwbl mwyach.

Ymholydd:

Eto, dyna'ch gwerthwyr gorau erioed, fesul miloedd, dwi'n tybied. Wedyn: llyfr o fath gwahanol –

1964: *Cyflwyno'r Gymraeg, (llawlyfr i athrawon ail iaith)*, Gwasg Prifysgol Cymru, 182 tt., a

1966: *Beirniadu gwersi ail iaith*, ix, 51 tt.

R.M.J.:

Cylchredwyd y llyfryn bach olaf fel gwasanaeth i'r cannoedd o athrawon a oedd mewn cysylltiad â'r Gyfadran. Math o gasgliad bach oedd o wersi enghreifftiol, ynghyd â sylwadau beirniadol ar 'egwyddorion ac ymarfer da' wrth adeiladu gwersi mewn cwrs ar waith: **'Sut i werthfawrogi gwers.'** Llawlyfr i fyfyrwyr, felly.

Ymholydd:

Dw i'n sylwi bod hyn oll wedi para am gyfnod, ar ôl i chi symud yn sydyn o'r diwedd o'r Adran Addysg i'r Adran Gymraeg, ac fel rhyw fath o ffarwel a chrynodeb o'r gwaith gyda didacteg hyd hynny. Gyda chymorth Megan Roberts, cyhoeddoch chi'r tair cyfrol 1974–1979 *Cyfeiriadur i'r athro iaith I-III*; ac yna, o fewn yr Adran Gymraeg chyda chymorth Rhiannon Ifans, *Gloywi Iaith 1,2,3*, Gwasg Prifysgol Cymru, 1988; Golygydd *Iaith Ifanc*, CYD 1992; y llyfryn *Language Regained*, Gwasg Gomer 1993; golygu *Cyd yn cydio: deng mlynedd yn hanes y mudiad* 1994; a *Dysgu Cyfansawdd*, 2003, tt.190. O fewn yr Adran Gymraeg yr oeddech pan sefydlwyd CYD, felly. Dyna restr weddol gyflawn o'r sgrifeniadau a gyhoeddwyd gennych chi *cyn* cyhoeddi *System in Child Language* ac *wedyn*. Mae'n amlwg bod gennych chi gynllun amlweddol arall erbyn hyn. Sut y gwelsoch chi gyfeiriad y cynllun hwnnw? Ai chwythu plwc yr oeddech chi ar y pryd? Ai dyna'r pryd roeddech chi'n dechrau troi'ch cefn ar gyhoeddi ym maes Adennill Iaith er mwyn pwysleisio beirniadaeth lenyddol, gydag atodiad o ymarferoldeb gwirfoddol bersonol (oherwydd eich cydwybod) gyda'r Ail Iaith allan yn y gymdeithas, heb barhau mewn ieithyddiaeth gymwysedig o ddifri?

R.M.J.:

Wrth eich clywed chi'n nodi dyddiadau rhai o'r eitemau yna, dwi'n synnu braidd fod llawer o'r pethau sy'n dangos cyfeiriad fy ngwaith wedi'u cyhoeddi *cyn* mynd i Québec a *chyn* cyhoeddi *System*. Mae *System* i raddau'n dynodi diwedd cyfnod. Yn wir, mae yna fap i'r holl gynllun eisoes ynghynt yn *Cyflwyno'r Gymraeg*, 1964. Sylwch ar y cynnwys. 'Graddio'r eirfa a'r patrymau brawddegol; Model o'r Iaith Lafar Ysgrifenedig er mwyn unioni a sefydlu model i gyrsiau i bob ardal ac i bob cyfrwng; ac efallai un o'r meysydd mwyaf addawol hyd yn oed i oedolion – '**dulliau**' gwahanol megis defnyddio'r iaith newydd yn gyfrwng cyflwyno gwybodaeth pynciau eraill yn y gwersi Cymraeg fel Daearyddiaeth, Rhifyddiaeth, Ymarfer Corff, Hanes, ac eraill; Chwaraeon ail iaith; Driliau; Cyfarpar Gweld a Chlywed; Ymarfer Patrymau ac Ymarferion Ysgrifenedig; Cynllunio Gwersi, ac yn y blaen.' Dyna fath o grynodedb yn gynnwys mewn amlinelliad o'r rhaglen 'welwn i ar y pryd ar gyfer adnoddau tymor-byr. Yr oedd hefyd yn fath o osod ffiniau. Nid ehangu oedd ei angen mwyach, ond dyfnhau.

Ymholydd:

Cawsoch flwyddyn orlawn yng Nghanada, mae'n rhaid. A oedd gynnoch chi yn eich meddwl y bwriad yn Aberystwyth o sefydlu Canolfan Ymchwil wedyn y pryd hynny? Ar ôl ichi ddod yn ôl o Québec, beth oedd eich bwriad chi?

R.M.J.:

Teimlwn ar y pryd fod llawer o'r arolygu neu chwilio am syniadau ac adnoddau rhyngwladol eisoes yn weddol ddigonol. Yr oedd llawer o ddatblygiadau drwy'r byd ar y pryd ar gyfer cyrsiau yn dal yn newydd gyda sefydlu'r Cenhedloedd Unedig; ac roeddwn yn weddol optimistaidd – gydag ychydig o gefnogaeth ac amynedd, – y byddai modd canoli Sefydliad Ymchwil yng Nghymru i gadw llygad “ar y byd”, ac y byddai Cymru'n diuno fwyfwy i redeg gyda'r gwledydd eraill. Yr hyn a roddodd Québec i mi oedd proffesiynoli'r wybodaeth, a rhoi hyder efallai i'r dyfodol. Credwn y gallwn ffeindio fy ffordd yn awr o gwmpas yr hyn a oedd ar gerdded yn y gwahanol wledydd. Ond yn anad dim yr oeddwn wedi ennill ymwybod eithriadol o 'Gyfundrefnu'. Deellais i ystyr ac arwyddocâd '**System**' yn well o lawer, ac mewn dyfnder. Bu hyn fwy na darganfyddiad. Bu'n sioc. Roedd hyn yn dal yn fyd academiaidd newydd eithriadol o amlochrog ddiddorol. Roedd yn codi pob math o ystyriaethau deallol newydd i mi, ac yn agor byd lle y ceid diffiniad mwy ffrwythlon i gysyniad '**System**' a geid wrth gwrs drwy gydol Natur ac Iaith. Ac mi wn i y byddai'r cefndir academiaidd newydd hwnnw, pe bawn i wedi ymroi yn awr, wedi bod yn gychwynfan i gyfrannu'n

well i adnewyddu'r iaith yng Nghymru. Efallai y byddai rhai pethau 'gwreiddiol' hyd yn oed, yn arbennig yn sgil yr ymwybod tyfiannol ynghylch grym a phresenoldeb System mewn Cystawen... Ond digon am hynny: yr oedd yn rhy gynnar o lawer yn y saithdegau i feddwl am Ganolfan a gâi groeso. Mae arna-i gywilydd hefyd am yr hyn a ddigwyddodd wedyn i'r gwaith a adewais i.

Ymholydd:

'Wnaethoch chi *ddim mwy* yn academiaidd ym maes Adennill Iaith.

R.M.J.

Na ddo, i bob pwrpas, dyna'r cywilydd. Fawr o ddim, o leiaf, o gyhoeddi. Roedd y cwbl wedi bod yn gynamserol.

Ymholydd:

Ar ryw olwg, gwrthod hyn oll 'wnaethoch chi. Cefnu ar Ddidacteg ac Ieithyddiaeth Gymwysedig. Dyma ni'n sôn yn y fan hon am ddechreuadau wedi bod hyd yn hyn o yrfa botensial mewn ieithyddiaeth yn tynnu i ben mewn gwirionedd. Roeddech chi wedi paratoi ar gyfer rhyw brosiectau a fyddai'n dra defnyddiol yng Nghymru. A ddaeth dim mwy ohonyn nhw, na ddo, er ichi gymhwyso'r cysyniad o gyfundrefn mewn maes arall i adeiladwaith creadigol llenyddol. Ddaeth neb i'r bwlch academiaidd hwnnw.

R.M.J.:

Ces i ddychryn annisgwyl hefyd. Roedd yr amgylchiadau wedi newid. Roedd gwleidyddiaeth – fel y bydd hi – yn gwastraffu gormod o amser, ac yn gwneud gormod o elynion, ac ni chafwyd digon o ostyngedd rwydd gan y Cymry Cymraeg rhugl i weithio'n wirfoddol. Aeth difrifoldeb cyd-ymddiddan yn amherthnasol rhwng y dysgwr a'r Cymro Cymraeg a daliai'r dyfodol gwan rhag dod. Ces i sylweddoliad, o'r saithdegau ymlaen, fod yr awydd i 'wrthdystio' – protestio fel tacteg adennill – wedi cydio yn anhunanfeirniadol dynn yn nifrifoldeb Cymru. Hynny yw, roedd ymddiriedaeth mwyach mewn osgoi gwaith cadarnhaol gwirfoddol ac ysgolheigaidd caled yn y maes. Chwiliwyd am ganlyniadau sydyn. Torrwyd ar y cadarnhaol yn bur gyffredinol. Gwthiwyd y gwirfoddol adeiladol i'r ymylon: aeth yn amhosibl i fforio yng nghyfeiriad y cadarnhaol. Roedd holl ewyllys a brwdfrydedd ac arweiniad y cyfnod yn tynnu sylw oddi ar ein dyletswyddau *ni*, at ein 'hawliau' yn unig, at ffroth hyfforddi ysgafn, ac yn rhoi'r bai ar bobl eraill.

Dw i ddim yn wrthwynebwr i brotest. Ac yn wir, mae'n aros yn angen mawr iawn o hyd. Mae'n anhygoel pa mor rhagfarnllyd o Wrth-Gymraeg y mae rhai unigolion ym mhob rhan a

chornel o Gymru yn gallu bod. Bydd angen o hyd inni wrth ryw brotestwyr glew, achlysurol, ond rhwng cromfachau. Yr hyn sy'n drasiedi, yn drychineb o'r radd uchaf, yw parodrwydd trist cynifer o'r Cymry pybyr hyn sy'n arbenigo mewn protest i esgeuluso gwerth cadarnhaol a gwirfoddol o blaid hyrwyddo siarad Cymraeg dan eu trwynau ymhlith dysgwyr yn uniongyrchol. Effeithiwyd yn negyddol tost ar holl gywair yr oes.

Mae'n ymddangos i mi fod Cymru wedi troi hefyd ym myd addysg a dwyieithedd (o du'r rhai negyddol yn ein plith) i gyfeiriad y tymor-byr yn unig, gan beidio â chynllunio ar sail profiad dwys ac eang ym maes didacteg iaith, gyda'r gwrthwynebwyr yn gwneud gosodiadau ysgubol a niweidiol yn erbyn iaith y genedl ar sail rhagfarn yn unig. Cesglir rhagfarnau gan rai cymunedau: dyna faes ffrwythlon i'r Academydd sy'n barod i wynebu chwilota digalon ond pwysig.

Weithiau bydd yr hyn a elwir yn 'arbenigwyr addysgol' yn gwrthwynebu'r iaith heb feddu ond ar gymwysterau tenau ganddynt; ond deuant gerbron gyda gosodiadau go fygythiol. Wrth godi o'r gwely y bore 'ma, cefais gipolwg ar gornel o'r papur – 'worldwide, Wales is unique in having stimulated ethnic language revival following a shift to the English during the industrial revolution. Our education system has been used as a maintenance too for the Welsh language; but there are questions here that warrant serious discussion.' Rhwng y llinellau ym mhobman, mae yna danseiliad ffyddlon o'r fath, bob wythnos bron.

'Worldwide? A oes sicrwydd bod Cymru'n unigryw drwy'r byd yn wyneb Catalaneg, Basgeg, Slofeneg, Lithiwaneg, Latfieg, Hebraeg, Ffinneg, a Tsieceg, ac eraill lawer? Dylai Canolfan Ymchwil y dyfodol ddenu llawer mwy o oleuni at sefyllfaoedd amrywiol cyffelyb a chymharol y gellid ymgynghori â nhw, gan ymagor yn rhyngwladol. Ond meddwch, 'y mae amgylchiadau cymhleth a natur yr adfywiad yn amrywio o iaith i iaith.' Yn union: dyna'r pwynt. Rhwydd yw chwifio cyffredinoliad afiach yn ein hwynebau'n ddiystyr. Nid un dadansoddiad sydd. Hawdd yw anghofio yn ein henciliad euog elyniaeth fwriadol gan Senedd Llundain, y gorthrwm cyfreithiol hir, y Welsh Not, y trai a'r llanw, a'r parhad maith i'r cymhleth isradd strwythurol a dardd o'r fframwaith ariannol dan lywodraeth Llundain? Diau fod angen datblygu'r gyfundrefn addysg – yn arbennig *ar ôl* sefydlu symudiad-oedolion cryf. Ond ni lwyddir i hyrwyddo Cymraeg Ail Iaith yn orfodol ledled ysgolion Cymru heb ei ragflaenu â dealltwriaeth o'r elyniaeth a heb ledu'n ddeniadol gadwyni lleol o grwpiau i oedolion lle y mae'r Cymry Rhugl yn flaenllaw.

Ond gallwn ein colli'n hunain mewn dadleuon diddiwedd o'r fath, heb symud mwy na modfedd. Os chwilotwn am ddatblygiadau, fy nadl yn y fan hon yw na ddylem fod yn amaturaid ac yn ansensitif wrth fesur cymhlethdod yr *holl* ffactorau. Triwch yn gyntaf. Chwifir gormod o elyniaeth at y Gymraeg a beirniadaeth negyddol ar seiliau rhy lipa, heb ystyried faint o ragfarnau ariannol sydd wedi bod yn wynebu Ysgolion a'r Gymraeg mewn llawer o siroedd ers canrifoedd. Y

rhagfarnau gwrth-Gymraeg yw'r hyn y dylid eu mesur yn gyntaf cyn mesur eu canlyniadau. Yn wyneb cyndynrwydd negyddol, y mae hyrwyddo sôn cynyddol yn y gymuned am *gyd-weithio* rhwng Cymry Cymraeg a Dysgwyr yn sicr o fod yn gam aruthrol ymlaen.

Mewn ymchwil o'r fath ar wendid cefnogaeth deg, a gwendid meddwl proffesiynol, y gwendid gweledigaeth yw'r rhwystr cyson i ffyniant cyflawn cytbwys sy'n adeiladu hyder, balchder, a dyfnder diwylliannol. O! Oes mae yna ddyfnder mawr y fan yna. Ond mae yna ddyfnhau mwy uniongyrchol ar gael i adennill iaith ei hun, o sefydlu mwy a mwy o bwyntiau twf.

Ymholydd:

Gwn i. Cawsoch lond bola ar un math o ddadl. Dw i'n cofio i chi eich hun fynd drwy gyfnod cafalir un adeg pryd y buoch chithau yn frwd iawn yn protestio. Roedd llun ohonoch (yn y *Faner Goch* un tro), yng nghwmni Waldo ac R.S. Thomas yn eistedd ar yr hewl ym maracs Trawsfynydd. Dw i'n edrych hefyd y funud yma ar gyfres gynnar iawn o ysgrifau, ac yn ceisio dychmygu beth oedd ar gerdded: mae yna ddadl rhyngoch chi yn ifanc â W.R. Jones Bangor: mae'n dechrau ym 1955 gydag adolygiad ar gyfrol W.R. Jones *Bilingualism and reading ability in English*. Mae'n parhau ym 1957 gydag adolygiad ar ei gyfrol *The educational attainment of bilingual children in relation to their intelligence and linguistic background*. Ac mae yna lu o ddarnau perthynol a oedd yn ymddiddori yn nhiriogaeth Dwyieithedd fel testun dadl gref eithaf pendant mewn manau eraill. 'Wnaethoch chi ddim ymgolli mewn dadleuon? A ddaethoch i weld peryglon gormod o drafod a rhy ychydig o weithredu gwirfoddol?

R.M.J.:

Yr hyn a ddysgais i'n bersonol yn y fan yna oedd pwysigrwydd gwerth sylwi ar ragdybiau a negyddiaeth yn y byd academiaidd. Fawr o ddim arall sydd o'r tu ôl i hir amharodrwydd i afael yng nghalon problem yr iaith. Gwylier dadleuon amherthnasol neu anymarferol. Os eir i'r pen, fe fydd dadleuon negyddol academiaidd yn methu yn y pen draw â goleuo'r bylchau eglurhaol. Fe atebodd W.R. Jones yn ostyngedig gwrtais i'm tipyn sylwadau yn 1959 yn ei gyfrol *Bilingualism and Intelligence*. A brysisais i gydnabod hynny mewn adolygiad arall, 'Daeth dwyieithydd at ei goed.' Yr hyn a oedd wedi digwydd oedd yr hyn sy'n digwydd mor aml mewn 'Ymchwil mewn Addysg' gan 'Arbenigwyr awdurdodol' go simsan fel ni'n dau ar y pryd. I mi, mae Addysg yn ymddangos yn faes academiaidd hollol sigledig erbyn hyn i ymchwilwyr difrif o'r hen fath, yn arbennig ym maes Mesur ac Ystadegau symleiddiedig. **Mae'r ymchwilydd yn mynd ati gydag ychydig o ragdybiau digon annigonol. Fe all fod yn rhy barod i or-symleiddio Seicoleg a Chymdeithaseg.** Ceisio yr oedd W.R.J. olrhain perthynas 'cyrhaeddiad' mewn addysg ac effaith dwyieithedd. *Hel ystadegau amheus*

yw un o brif ffolinebau twyllodrus Addysg swyddogol. Mi ddeil felly i Ganolfan Ymchwil i Adennill. Roedd canlyniadau cyntaf W.R.J. yn gwbl negyddol oherwydd gorsymleiddio. Ar y pryd bu ei ganlyniadau'n niweidiol eu heffaith ar rieni Cymru, ac yn wledd flasus i elynion parod a niferus yr iaith. Ond yn academiaidd, yr oedd llawer o'r 'prif ffactorau dylanwadol yn y mesuro a'r disgrifio wedi'u hanwybyddu'n llwyr.' Bu ystadegau mewn gwyddorau dyniaethol erioed yn dibynnu ar or-symleiddio. **Pam? Nid ystyriwyd ffactorau cwbl allweddol megis 'agweddau' plant/rhieni/athrawon/prifathro at yr iaith, 'oedran dechrau' dysgu ail iaith, arwyddocâd 'maint y dosbarthiadau', 'amlder a hyd' y gwersi, pa 'ddulliau' a ddefnyddid – llyfrau, gwaith llafar, chwaraeon, caneuon, trefn y cyrsiau; faint o arian a dderbyniai ysgol i staffio'n ddigonol ac i brynu adnoddau, 'ansawdd y defnyddiau dysgu'.** Ac yn y blaen. Yn anad dim amaturiaeth y cyrsiau a diffyg hunanfeirniadaeth yn y profion. Symleiddiwyd cymhlethdod y ffactorau oll yn gwbl ddiniwed ac anfwriadus yn natblygiad y cyrsiau. **Annigonol iawn oedd pob ymgais ar y pryd i ddiffinio ac i fesur deallusrwydd a chyrhaeddiad.** Dechreuai W.R. Jones druan ar y pryd, gan bwyll, sylweddoli'n rhy hwyr arwyddocâd cymharu plant â phlant yn ôl dosbarth a lleoliad cymdeithasol; a chanfu'n graff fel yr oedd y canlyniadau'n amlwg gywirach wrth arwyddocâd amgylchiadau cymhleth o'r fath. Ond ni lwyddodd erioed er hynny i gynnwys y *prif ffactorau addysgol* o fewn ei ymchwil. Gŵr a chanddo le yn hanes addysg a dwyieithedd yng Nghymru yn ddiau oedd W.R. Jones; ond ysywaeth lle negyddol oedd ac a fydd o safbwynt ymarferol i raddau, gydag esiampl werthfawr o rybuddiol i academiwyr. Dangosai oferedd trist camgymryd rhagdybiau a symleiddio ffactorau. Sylweddolai o'r diwedd yn ymarferol orgymhlethdod y gwyddorau dyniaethol i gyffredinol. Ac 'allwn innau y pryd hynny yn ei le ddim cynnig gwell na beirniadaeth. Dau o'r prif ffactorau bob amser oedd ansawdd ac amlder a hyd amser y cyrsiau. **Erys yr holl ffactorau hyn yn gymhlethiad ar brofion o'r fath hyd heddiw.**

Dyna pam y dywedaf fod Ymchwil i'r dyfodol yn gorfod **dechrau nid gyda'r canlyniadau ond gyda'r paratodau** – megis graddio iaith a'r panorama o ddulliau cyflwyno a'r deunyddiau manwl gymwysedig. Ofer profi wedi paratodau diymchwil.

Mae'n rhaid i Ymchwil academiaidd o'r teip yna gyfrif **yr holl ffactorau amlycaf**, a gwneud diagnosis llawer iawn manylach o'r dylanwadau a greodd y sefyllfa.

Ymholydd:

Ond parhaodd y ddadl yn eich profiad chi. Dwi'n gweld yn llyfryddiaeth Huw Walters ragor o ddadleuon gennyh ar y mater hwnnw yn *Teacher in Wales*, 1960, a 1961, *Y Cymro* 1962, a 1967, ac mewn erthygl yn 'How and when do persons become bilingual' yn *Description and measurement of bilingualism*, University of Toronto Press. 1969. Buoch chi'n adolygu llyfrau ar Ddwyieithedd yn

Studia Celtica 1989. A'r cwbl o'r hyn a adolygwyd heb ystyried yr unigolion a'u hanghenion nac ansoddau'r dysgu, ond yn bwrw'r rhwyd ar led ystadegau. Mewn gwirionedd, aeth y maes negyddol hwnnw â'ch bryd am gyfnod go hir. Ac yna, plop. Diflannodd.

R.M.J.:

Do. Dyma i ni rybudd eto wrth drafod Canolfan Ymchwil. Do, mi ges i chwyldro meddyliol ac emosiynol arall ar ryw olwg wrth wylid y posibilrwydd o fethu wrth 'fesur' canlyniadau gorsymyl ac wrth fethu â chynhyrchu defnyddiau digon proffesiynol ymlaen llaw. Dangos gwendid y defnyddiau yr oeddid, heb gyfaddef hynny, ac nid profi'r plant na'r athrawon yn deg. Es i'n fwyfwy dadrithiedig ynghylch 'mesur' manylion dwyieithedd, heb ryw ddiffrifoldeb mwy o lawer nag a wneid ar y pryd. Welwn i ddim gobaith byth am fudd o fath yn y byd yn y cyfeiriad hwnnw, gan fod cymhlethdod y meddwl dynol yn cael ei amodi mewn modd mor astrus i'r math hwnnw o glandro. A theimlais fod yn rhaid canolbwyntio ar *lwyddiant* mewn gwella dysgu iaith yn ymarferol yn y dosbarth, gyda llai o gyffredinoli gwyllt a mwy o fesur (os oes rhaid) ar raddfa unigol a lleol. Eto, parhaodd y diddordeb academiaidd hwn mewn dwyieithedd o bell ac yn ynysig mewn rhai gwledydd eraill, mi wn i. Felly y myn y gwleidyddion o hyd, mae arnaf ofn. Ond at ei gilydd, dw i wedi dod i'r casgliad fod yr hen ddadl ystadegol drosodd ers talwm. Archwilio'r amhosibl yr ydyn ni y ffordd yna, er mai gair peryglus yw 'amhosibl'. Ond dw i'n sylwi fod rhai ceisiadau addawol ym maes archwilio gwrthrychol corfforol yn blodeuo'n ddiweddar. Dichon fod archwilio a mesur effeithiau *corfforol* yn awgrymu datblygiadau posibl a ddaw'n helpfawr rywdro, ond heb fod yn uniongyrchol. Yn y chwedegau dangosodd yr arbenigydd meddygol niwrolegol Wilder Penfield o Toronto fod cysylltiad rhwng effaith amnesia oherwydd niweidiau damweiniol i rannau penodol o'r ymennydd, yn arbennig ymhlith plant, yn amrywio yn yr effeithiau parhaol yn ôl oedran a safle, ac yr oedd rhan arall o'r ymennydd yn gallu cymryd drosodd weithiau a gwneud iawn. Er mor bwysig oedd hyn mewn meddyginiaeth, ac yn arbennig ar gyfer olrhain trefn olyniaeth y dysgu newydd, dw i ddim yn credu i'r darganfyddiad effeithio fawr ar addysg ar y pryd. Ond yn ddiweddar iawn, mae mwy o ymchwil ar gysylltiadau yn yr ymennydd ynghyd ag ychydig o fesur uniongyrchol o'r effaith benodol ar eu heffaith yn dangos buddioldeb meddu ail iaith yn gynnar o fewn cymdeithas. Cynnar ar hyn o bryd yw'r casgliadau, ond llawn addewid, efallai gydag unigolion, yn hytrach nag yn y dosbarthiadau. Eithr nid dyna'r llwybr i Gymru.

*

*

*

Ond arall, mi gredaf, fydd ehangder y llwybr cul bellach i'r Adfywiad Cymraeg. Mae angen i ddyrmaid o bobl yng Nghymru fod wrthi'n barhaol am dipyn go lew, yn ymhel dan gyfarwyddyd hyddysg, â phrosiectau dwys a hirdymor ym maes Didacteg Ail Iaith ac Ieithyddiaeth Gymwysedig.

Mae angen gwell sylfeini. Byddai presenoldeb hysbys tîm gwir broffesiynol yn rhoi hyder a statws ar y ffâs i ddysgu'r Gymraeg, ac yn werthfawr yn rhyngwladol. Mae gennym eisoes lawer o diwtoriaid lleol sy'n dda odiaeth, ac y mae'r gweinyddu yn dal i wella. Mae angen adeiladu y tu ôl iddynt lawer o gyfarwyddyd ychwanegol. Mae angen rhoi'r defnydd ar blat wedyn. Os ceir ef, fe ellir hedfan. Dyma'r llwybr cyntaf mewn Ymchwil i Gymru ei ddilyn i'r dyfodol.

Cofiaf, pan gefais fy mhenodi i'm prif brosiect academiaidd ym 1960, methais â dod o hyd i neb yng Nghymru a oedd wedi ymbaratoi ar gyfer *cyfarwyddo*. Nid oeddwn innau'n hyddysg yn y maes, nac yn gwybod ble i droi. Ni allaf feddwl chwaith am neb yn gallu cynghori'n fedrus sydd wedi casglu cefndir gweddol, hyd yn oed heddiw. Fel y crybwyllais ynghynt, dechreuais gasglu deunydd ar unwaith ar gyfer PhD mewn dwy gyfrol. Roedd y naill ran yn ddisgrifiad dros dair blynedd cyntaf o dwf iaith un plentyn, yn ffonolegol, yn semantaidd, ac yn gystrawennol. Roedd a wnelo'r ail ran wedyn â theori. Ble awn i am sylfeini ystyrol ac esboniol i ymchwilio o'r fath? Bu'r ymchwil ar y pwnc ar y gweill am ddegawd gan gynnwys yr arhosiad yn Quebec. Gobeithiwn y byddai'r maes yn gefndir felly i feddwl yn well am strwythurau tyfiannol. Ond o safbwynt ymarferol ni bu'n llwyddiannus oherwydd peidio ag *aros* am gyfnod pellach yn y maes i'w ddatblygu, a thyfu'n gyfarwyddwr gyda mwy o bersonnel. Yr wyf yn argyhoeddedig bellach y gellid codi tîm yng Nghymru sy'n credu yn yr achos, a chefnogaeth swyddogol y tu ôl iddo sydd hefyd wedi meddu ar weledigaeth a gallu i weithredu, a hyfforddi'r hyfforddwyr. Bob amser, mae'n rhaid 'defnyddio' dysgwyr real, a phroblemau real mewn poblogeth dra chymysg. Gweledigaeth sydd eisiau, a gwybodaeth am fodolaeth a chymeriad y Canolfannau Ymchwil gorau mewn Ieithyddiaeth Gymwysedig a Didacteg Iaith ledled y byd.

Ymholydd:

Dw i'n dechrau synied sut bynnag eich bod yn gweld rhyw fath o gysylltiad rhwng unrhyw Ganolfan Ymchwil arfaethedig o'r newydd a ddaw yn genedlaethol, gobeithio, a'r hen fframwaith bras yn Aberystwyth a gychwynasoch yn ofer rhwng 1958 a 1966. Fe ellir dysgu o'ch methiant i ymehangu. Hynny yw, er bod llawer o brofiad a syniadaeth fywiog mewn rhai cyfeiriadau o safbwynt yr hyn yr hoffech ei weld – yn ddiwygiedig ond yn broffesiynol – eich argyhoeddiad, o'r newydd mwyach fyddai tîm o ryw driawd o bobl lawn-amser newydd o staff mewn Canolfan, gydag un Cyfarwyddwr iddynt sy'n cael rhyddid i ymchwilio'n rhyngwladol mewn maes penodol... Beth bynnag, mae'ch casgliadau wedi sadio mwyach: rown i'n gweld gennych ar ôl 1980, er ichi newid ceffylau yn eich ymchwil eich hun i lenyddiaeth, fod yna dueddiad newydd arall wedi mynnu dod i'r fei yn eich bywyd, ac yn wir i feddiannu eich prif sylw ieithyddol hyd heddiw. Ond teimlo

dw i, beth bynnag am y tro hwnnw i gyfeiriad llenyddiaeth, fod yna ychydig o ymlyniad ac o deyrnged hiraethus i'r Mudiad Adennill Iaith wedi aros gyda chi, a'i fod yn tueddbennu at y torfol, yr oedolion, a'r adennill.

Eto, mae sôn am **bolisi i'r Gwirfoddol** braidd yn baradoesaidd, on'd yw hi? Gwrtheb mewn termau yw meddwl am 'drefniant' gan y Senedd i hyrwyddo'r Gwirfoddol. Ni wn chwaith sut y byddai'n fanteisiol pe bai'r Comisiynydd yn corffori'r Gwirfoddol o fewn cylch helaeth ei chyfrifoldeb, yn hytrach na Phrifysgol. Ac yna, pa gyswllt a all fod rhwng 'Canolfan Ymchwil' a 'Gwirfoddol'?

R.M.J.:

Dw i'n sicr y byddai pob un o'r bobol y cyfeiriwch atyn nhw nawr – y Senedd neu'r Brifysgol – yn cyfaddef mai ennill **ewyllys wirfoddol** y bobol mewn oed yw'r allwedd i unrhyw adfywiad iaith realistig ar raddfa uchelgeisiol. Mae angen ennill calonnau er mwyn iddynt hwythau ennill calonnau. Drwy frwdfrydedd y Dysgwyr yn unig y gellir denu eu clustiau. **Ond dyw dosbarthiadau yn unig ddim yn ddigon. Mae angen gwirfoddoldeb gweithredol y Cymry Cymraeg.** Dyw neilltuo neu anwybyddu'r lle sydd i Siaradwyr Rhugl ddim yn ffordd o ledaenu'r sôn am Adfywio cyfrifol drwy'r wlad. Mae Angen pontio a chreu gogwydd newydd. Heb ddigwyddiadau hysbys ar y cyd gan Ddysgwyr a Chefnogwyr gyda'i gilydd, byddai mudiad pwerus o ran morâl ddim yn bosibl. Yr un angen am 'barhad' sydd eisiau ar ddisgyblion Addysg Gymraeg.

Os oes problem yma, mae angen chwilio am y rhwystrau yn y cysylltu, a'u disodli.

Pedwarawd o ymchwilwyr penodol sydd eisiau ar y dechrau, ac am rai blynyddoedd, ynghlwm wrth y ffâs, ym unplyg ymarferol. Dw i'n gallu cydymdeimlo o hyd â'r rhai sydd yn meddu ar wir awch ysgolheigaidd, ac â'r ysfa greadigol am wybodaeth a dysg gan genhedlaeth newydd. Hynny yw, diau y bydd bob amser werth mewn academia sy'n treulio degawdau mewn ymchwil gan unigolion prin. Ond o safbwynt canolfan i Gymru, bydd yn rhaid i bob gwlad, dorri'r brethyn yn ôl anghenion a phatrymau a phroblemau cenedlaethol; ac mae'n rhaid cyfrif y sefyllfa Gymraeg yn unigryw. Mae'n gorfod wynebu'r holl boblogaeth a'u hangen, gan gynnwys y bobl sy'n meddwl y byddan nhw'n methu. Dyw math o Ganolfan Anghymreig – ar gyfer Ieithoedd yn gyffredinol – na Chanolfan Theoretig yn unig ddim yn mynd i wneud y tro. Mae'n wir bod mewn Iaith, a'r Iaith Gymraeg yn arbennig, ddyfnderoedd academaidd hyfryd i ymdroi'n ddeallol ynddynt. Ond *moeth* ar gyfer cenedl fawr ar hyn o bryd, i bobl arbenigol sy'n medru dilyn llwybrau cymharol esoterig os pwysig, fyddai bwrw ymlaen gyda'r academaidd diarffordd. Yng Nghymru, lle y mae'r gefnogaeth ariannol i ymchwil yn nidacteg y Gymraeg yn dra phrin, byddwn i'n dweud bod blaenoriaethau cliriach a Chymreig yn allweddol. Ar hyn o bryd, y mae'r angen yn daer ar gyfer y

canlynol:

1. Mae eisiau chwilota am y dulliau i **sefydlu** grwpiau ymddiddan rhwng gwirfoddolwyr rhugl a dysgwyr mewn oed o bob gallu sy'n gymharol gysurus; h.y. amlhau ugeiniau o ganghennau CYD ledled Cymru, hyd yn oed yn y bröydd Cymreiciaf. Hyn dw i'n ei gyfrif mwyach fel blaenoriaeth y Mudiad Iaith yn ein gwlad. A **phwnc ymchwil** yw i lunio asgwrn cefn. Hynny yw, sut mae sefydlu grwpiau niferus a threfnu gweithgareddau amryfal sy'n ysgogi siarad.
2. Amlhau llyfrau darllen, i Oedolion o Ddysgwyr ac yn y Sector Stadudol, yn arbennig **llyfrau gwybodaeth a phosau**. Amlhau hefyd lyfrau a holiaduron ar gyfer gweithgareddau megis gwibdeithiau hanesyddol a thematig.
3. Dal i **wella graddio cyrsiau** drwy ddatblygu llawer mwy o **ymarferion amrywiol** profedig bywiog yn y dosbarth. A'r cwbl ar sail Ymchwil.
4. **'Marchnata'r' symudiad Adennill Iaith gwirfoddol** yn fwy proffesiynol. Mae hyn oll yn her i'r meddyliau gorau, ac i'r rhai sy'n barod i roi cyfnod-byr neu gyfnod-hir i ddatblygu a hysbysebu adnoddau gwybodaeth wirioneddol ddiddorol a'r newyddion amdanynt. Mae eisiau astudio'r amlochredd.
5. A pharchu'r rhai **anacademaidd** a ddaw i mewn i'r symudiad gan fod yn barod i ddadramadegu pan gyfyd angen. Hynny yw, disgyblu'r uchelgais o 'Bawb'.

Dyma gynllun Cymreig uniongyrchol sy'n gwbl newydd i bob pwrpas. Mae'n ymddangos mor annisgwyl nes bwrw'r awdurdodau gweinyddol sydd wrthi'n arwain, bellach, yn chwithig. Ond yr annisgwyl yn unig a all ein digoni mwyach. **Manylir ar hyn yn 'Problemau wrth Adennill Iaith'**.

Wyddoch chi, er ein bod yn trafod yn awr y Ganolfan Academaidd i Adennill Iaith, un peth y mae ymwneud â'r iaith wyneb yn wyneb yn adenillol yn ei wneud yw dangos y ffordd y trechir realiti'r anacademaidd. A hynny yw, drwy **Barch** digymrodedd at y lliaws. Pwy yw'r clientèle felly? Maen nhw'n gwbl gymysg. Disgwyliwch yr annisgwyl. Pobl hollol anacademaidd yw'r mwyafrif, mae'n siŵr. Pobl wydn a gymer flynyddoedd weithiau i fynd rhagddi ond ychydig o ffordd. Ond fe ddôn nhw'n ôl wythnos ar ôl wythnos **os yw'r defnydd yn iawn**. Ac nid ymddengys i diwtor uchelgeisiol 'ar frys' ein bod ni hyd yn hyn wedi mynd yn bell i gyfarfod â nhw. Cynllunio ar gyfer y rheini y bydd Canolfan Ymchwil yn gyntaf – yn brosiect agoriadol – 'Welsh for the Masses', heb ddigalonni. A thrwy'r dyfal barhad a'r cariad a'r parch, y daw'r clientèle i ben eu taith. Maen nhw'n haeddu'r gorau, a'r ymdrech gan yr arweinwyr i'w hamgyffred nhw. Merched fydd y mwyafrif, gan mai nhw ar hyn o bryd sy fwyaf hydeiml i werthoedd a gweledigaeth ynghylch pwrpasau dynoliaeth uwchlaw arian, er nad yw hynny'n rheswm dros anwybyddu gwerth enfawr y gwrywod. Yr anacademaidd hefyd yw'r mwyafrif llethol yn y boblogaeth effeithiol a fydd yn ffyddlon, er mor

hanfodol yw cael twll bach ar gyfer y mwyaf ysgolheigaidd.

Ymholydd:

Beth 'wnewch chi gyda'r anobeithiol neu'r hir ymarhous yn eu plith?

R.M.J.:

Mynd cyn belled byth ag y gallwch chi, a'u parchu bob cam o'r ffordd, a'u diddyfnu nhw mewn math o ddisgyblaeth addfwyn a diddorol, a diolch am bob un. Dyna ichi ffactor rhyfedd i beri i Ganolfan Ymchwil wynebu realiti – parch at y clientèle leiaf academaidd sy'n cael anawsterau.

Ymholydd:

Clywais un aelod amlwg iawn o'r Cynulliad yn gresynu nad oedd mwy o'r dosbarth gweithiol yn siarad Cymraeg nac yn anfon eu plant i Ysgolion Cymraeg. Aeth y Gymraeg yn y de-ddwyrain yn iaith i'r dosbarth canol, meddai fe. On'd oedd ef yn gywir?

R.M.J.:

Dyw hynny ddim yn llythrennol wir, yn arbennig mewn amryw o'r Ysgolion Cymraeg yng ngorllewin Morgannwg. Yno mae cyfartaledd y plant, a gyfrifir yn isel ymhlith y rhai dan anfantais gymdeithasol, yn uchel iawn. Un peth sy'n wir yw bod llawer o Oedolion a ddysgodd y Gymraeg yn sôn am ryw newid a ddigwyddodd iddynt hwy'n bersonol, yn arbennig os byddant, ar ôl dysgu, yn ymddodi i mewn i'r gymdeithas Gymraeg (fel ym Merched y Wawr, CYD, Cymdeithas Edward Llwyd, ac yn y blaen). Mae'u gwerthoedd diwylliannol wedi tyfu. Mae'u hagwedd, nid yn unig at Gymru, yn newid, ond at ddynoliaeth a diddanwch hefyd. Maent yn dod yn fwy cyfoethog.

Ymholydd:

Alla-i ddim eich gollwng chi heb air arall ynghylch CYD. Yn y cyfnod ar ôl 1980, mi wnaethoch dros dro golli egni'r prosiect cymdeithasol allanol hwnnw i raddau am resymau cymhleth ac oherwydd dylanwad anwybodus o'r tu allan. Collwyd y gefnogaeth swyddogol. Does dim angen mynd ar ôl hynny mwyach. Collwyd hyd yn oed yr enw hwnnw CYD mewn rhai ardaloedd erbyn hyn, er bod y syniad yn para. Does dim ots am yr enw wrth gwrs. Ond ai lladd yr enw'n fwriadol oedd y cais gan awdurdodau'r iaith yng Nghymru? Dw i'n gweld eich bod wedi cael peth nawdd gynt yn gynnar gan Sefydliad Datblygu Cymru Wledig yn arbennig ar ôl ichi ddefnyddio'r ymadrodd 'Diwydiant Iaith' i'r ffermwyr. Cawsoch chi gefnogaeth gan Fanc Barclays a Bwrdd Afonydd a Nentydd Cymru. Mae yna ewyllys da ar gael. Dyna'r pryd ysywaeth yr oedd

Bwrdd yr Iaith wedi dewis pallu cefnogi CYD yn y gwaith o sefydlu canghennau.

R.M.J.:

Dw i ddim am fynd ar ôl gwendidau hen Fwrdd yr Iaith yn awr. Roedd wedi bwriadu'n dda gyda'r Mentrau, er bod y modd hwnnw mor anaddas ac annelwig ar y pryd. Mae'r sefyllfa wleidyddol yn well i raddau helaeth heddiw. Mae'n bwysicach i wneud iawn am bob colled, ac i geisio chwilio am ddyfodol gwir adferol a chadarnhaol. Gweledigaeth oedd CYD, yn fwy na Mudiad: Syniad, Athroniaeth. Gweledigaeth ddieithr ac anodd i'r Sefydliad ei ddeall am ei fod yn dibynnu'n llwyr ar ewyllys da. **Pwysleisiai'r Gwirfoddol, peth sy'n chwithig iawn i wleidyddion.** Pwysleisiai *bawb*, nid y trefnwyr yn unig. Ond yr oedd yn ffitio i mewn i gyfundrefn o ddsbarthiadau.

Ni lwyddasom erioed yng Nghymru, sut bynnag, i feithrin *crefft a thechneg sefydlu canghennau* CYD i glymu Cymry Rhugl wrth Ddysgwyr Rhugl. Cawsom ryw 60 o ganghennau ar un adeg yng nghyfnod mwyaf llewyrchus CYD. Ond ni chafwyd y ddegfed ran o'r potensial ymarferol, am resymau technegol. Ddim y ganfed ran. Datganoledig oedd y symudiad, ac roedd hynny yn fy marn i yn ddelfrydol; ac felly y byddai'n rhaid iddo aildyfu, gydag ambell newid. Ond rhaid wrth gefn gael trefniant canolog cryno cyfrifol llawer mwy uchelgeisiol hefyd i fod yn *ffatri sefydlu canghennau*, ac i roi peth cyfarwyddyd cynnil yn y dechrau. **Techneg oedd meithrin crefft plannu grwpiau newydd nas meistrolwyd; a dibynna ar well cydweithrediad o lawer â'r dosbarthiadau a ricriwtio gwirfoddolwyr rhugl.** Haws o lawer oedd segura a phrotestio er mwyn canlyniadau dros nos.

Mae'r drefn bresennol gyda chanolfannau iaith datganoledig yn gam mawr ac ardderchog ac anturus ymlaen, gredaf i. O ochr cyflwyno a dysgu iaith i oedolion, mae'n barhad i'r hen adrannau allanol, er bod lle mawr i wella o safbwynt cysylltiad â'r sector gwirfoddol, y gweithgareddau, a llunio cyrsiau proffesiynol ar sail ymchwil. Ond gŵyr y Canolfannau Dysgu Oedolion am hyn oll yn burion bellach; ac y maent yn symud i'r cyfeiriad hwnnw ar hyn o bryd, ond yn rhy araf o lawer, a heb fod yn strategol bwerus. Ceir er hynny gychwynfan gampus ac addewid wych, cychwynfan sy'n disgwyl eisoes am yr Ymchwil academaidd.

Bydd yn dda iawn gennyf weld ail fywyd Cyd mwy dealedig gan yr Awdurdodau. Mi greda-i ei bod yn dyngedfennol bwysig yn seicolegol ymarferol i forâl a strwythur a hysbysrwydd ar gyfer unrhyw symudiad difrif i adfer y Gymraeg. Mae ei bresenoldeb hysbys yn y wlad drwy well 'marchnata' yn gwbl angenrheidiol i feithrin ewyllys newydd, ynghyd â mwy o ddealltwriaeth gan yr awdurdodau. Dyma yn anad dim fydd yr arwydd disgleiriaf o lwyddo Cymraeg. Mae a wnelo bellach â'r cnewyllyn canolog ac yn arwydd o'r posibl. Felly, y mae'n dda gen i ddweud bod syniad

CYD ar gerdded o hyd o fewn ei hedyd, er bod y nifer o ganghennau'n anhysbys.

Ymholydd:

Ydy. Gwn i. Ond mae'n aros yn rhy gyfrinachol. Bydd eisiau datblygu'r Adran Farchnata iddi rywsut. Dowch yn ôl i sôn ychydig mwy felly am yr hyn a elwch yn athroniaeth Cyd ac ystyr yr Enw yng ngolwg pobl eraill.

R.M.J.:

Mae'r bathodyn yn arwyddo'r peth yn syml: C a D fel dau berson yn wynebu ei gilydd, a rhyngddynt y cwlwm ar gyfer siarad, a'r ddwy ochr yn undod drwy'r Y. Mae'r ddwy ochr yn rhan o'r cyfartaledd. Mae'r ddwy ochr yn rhoi ac yn derbyn: caiff y siaradwyr hyn gymaint o fudd â'i gilydd. Bydd hyd yn oed y cyn-brotestwyr yn ymwared â'u rhwystredigaeth aflonydd wrth gael eu bod ym mhob cyfarfod yn adeiladu, yn ennill, ac yn gwneud cam ymlaen. Adeiledir o hyd gan bwyll, yn ymwybodol fod y Siaradwr Rhugl (o weld y cynnydd) yn cael cymaint o fwynhad a bodlonrwydd bob dim â'r Dysgwr. Allwch chi ddim colli, os meithrinir y presenoldeb dyfal-barhaus yn arferiad drwy gydol y gymdeithas nes na bydd neb heb wybod fod yna symudiad ar gael ym mhobman, ym mhob tref a phentref go lew yng Nghymru, a phob dinas yn Lloegr. Cydadeiladu'r Bobl Gymraeg (cyfran ohonynt wrth gwrs), y DDWY OCHR, mewn gwybodaeth amdanyn nhw eu hun fydd yr hyfrydwch hefyd.

Ymholydd:

Dw i'n gallu gwerthfawrogi y bydd yr hen ymadrodd diflas '*problem yr iaith*' yn gallu lleihau yn fuan.

R.M.J.:

Gwell gen i sôn am 'Sefyllfa'r Iaith'. Wrth gwrs, mae'n wir fod yna broblemau. Rhydd hynny dipyn o flas halen ar y Sefyllfa, efallai. Ond os ydyn ni'n synied am adeiladu Pobl, mae yna gymhelliad iach, ac iacháu, a hwb gan bawb i'w gilydd. Mae'n rhoi gwth cadarnhaol ac 'ar i fyny' i bob cyfarfod. Pell y bo achwyn. Mae'n llawer mwy na 'choffi a sgwrs' na 'chloncian'. Maen nhw'n 'ymuniad'. Mae pob cyfarfod yn ennill tir, yn ychwanegiad. Pan fydd y ddelwedd honno'n dirfawr amlhau, bydd yn disodli gofid ieithyddol a digalondid ac israddoldeb ysbryd ynghylch diwylliant; ac ymsefydla'r hwyl newydd o wythnos i wythnos.

Ymholydd:

Dw i'n sylwi fod yr elfen 'Cyd' felly yn benderfynol o ymledu'n ganolog o'ch rhan chi.

R.M.J.:

Allwn ni ddim ei hepgor am ein bod yn 'cydio' ym 'mwy na'n gilydd' o hyd. Er mwyn mynd ymhellach, dylem ymglymu wrth bob mudiad Cymreig. Mae Cyd ei hun yn bwydo Cymdeithas Edward Llwyd a Merched y Wawr, a'r cymdeithasau yna eu hunain yn cyfrannu'n ôl. Mae rhai capeli wedi sefydlu cyfarfodydd sgysiol misol ar gyfer dysgwyr. Ac y mae hyn yn ymgysylltu hefyd â gweithgareddau cefnogol mewn llyfrgelloedd gyda chlybiau darllen. Ceir corau a phartïon a bandiau a gigiau ac eisteddfodau a dawnisiau a chloesio sy'n falch o'u dysgwyr: *bob amser* gweithgareddau rheolaidd ac nid rhyw un 'diwrnod' o stynt i'r Gymraeg nac un stynt o 'wythnos' i'r Gymraeg. Rhaid inni fod yn organaidd fywiol. Rhaid ymward â'r syniad o'r achlysurol yn unig, nes i reoleidd-dra a sefydlogrwydd wythnosol ddod yn gynhenid. Os yw'r Eisteddfod Genedlaethol (gyda'i darpariaeth ardderchog ar gyfer Dysgwyr) yn gallu 'newid bywyd am byth' fel y gwna yn achos ambell ddysgwr, a bod yn sioc o bleser i un arall wrth glywed cymaint o Gymreictod newydd yn yr un lle, dylai'r Eisteddfod honno ei hun wedyn droi'n arferiad i'r Dysgwyr cefnogol hyn. Os yw gwibdaith i Sain Ffagan (a'i darpariaeth lew eto ar gyfer Dysgwyr) yn ddatgeliad i ddysgwr eleni, neu wibdaith i un 'man' hanesyddol y flwyddyn nesaf, ac yna grwpiau o Cyd yn ymweld â'i gilydd o bryd i'w gilydd, fe all roi cyffelyb wefr mewn rhywbeth arall eto y flwyddyn ar ôl hynny. Gellir datblygu gweryslyoedd a chynadleddau preswyl.

Ymholydd:

Felly, mae gennych hyder. Dyma gynllun a all achub yr iaith, dybiwch chi. Ydych chi'n optimistaidd ynglŷn â dyfodol yr iaith? Fe welwch chi'r Ganolfan Ymchwil yn gefn ac yn rhoi gwefr a hyder i frwdfrydigion yr ardaloedd wrth ddatblygu techneg i sefydlu grwpiau newydd o hyd.

R.M.J.:

Ar hyn o bryd, dyw'r trefniadau adennill a chynyddu ddim yn ddigonol onid ym maes Cymraeg gyhoeddus a hawliau; a weithith ddim o hynny heb well cynllunio o lawer mewn adennill uniongyrchol. Diolch hefyd i'r 'cyd-destun' a hyrwyddir yn frwd gan y Comisiynydd Iaith ym maes Iaith Gyhoeddus. Ond y mae'r un peth mawr yn aros inni oll. Ac wrth dyfu, fe fydd hynny'n creu cyhoeddusrwydd a newyddion ac ysbryd o sicrwydd.

Ymholydd:

Wrth gwrs, rhaid i'r iaith yn y pen draw fod yn glywadwy ac yn weladwy. Ofer hynny os nad yw'r gwirfoddol yn ei le, yn amlwg, a'r ewyllys rydd yn cynhesu. A'r hyn sy'n waeth, dyw gweledigaeth am y lleiafrif angenrheidiol dyfal-barhaol ddim yn ddigon 'gloyw' ar lawr gwlad. Dyw e ddim yn ddigon o ran ein hymrwymiad.

R.M.J.:

Y perygl bob amser yw gorbwysleisio 'cynnal' ar draul 'ennill', oherwydd ei fod yn rhwyddach ac yn fwy o gyfrifoldeb i 'bobl eraill'. O safbwynt gwaith clodfawr megis cadwraeth ac ailadrodd ymarfer gorau'r gorffennol darfodedig drwy weithgareddau Cymraeg achlysurol diddanus a thrwy amlhau gorymdeithiau Gŵyl Ddewi, neu raddol ddwysáu addysg Gymraeg, diau fod hyn oll yn *cynnal*, ond heb yr uchelgais sy'n gwbl *adenillgar* yn wyneb penllanw. Ni ellir ond cefnogi'n bwrpaslon y gorymdeithio os sicheir ein bod yn osgoi hunan-dwyll. Daw Addysg Gymraeg, gan bwyll, yn fwyfwy rhan o strwythur Addysg 'Naturiol', diolch i lawer o garedigion gwych. Dichon fod calonnau'r rhai a fyddai'n hoffi sefydlu apartheid tiriogaethol mewn 'cymunedau Cymraeg' neu 'geyrydd-dan-warchae', neu unrhyw ffafraeth o'r fath, yn pleidio polisi sydd naill ai'n gwbl anymarferol neu'n anatyniadol i ddelfryd democratiaeth. Eto, y mae'u teimladau'n gallu bod yn gynnes.

Ond pan fydd caredigion yr iaith yn tyrru i hyrwyddo grwpiau cyd-ymddiddan rheolaidd gyda dysgwyr, dyna'r prif arwydd y bydd yr Adfywiad o ddifri, y meddwl yn loyw, a'r tro wedi digwydd.

Awgryma Cynog Dafis mai buddiol yw pennu nifer o allweddeiriau: 'tyfu' yn lle 'achub', 'creu' yn lle 'gwarchod', 'ymdaith' yn lle 'amddiffyn'. Ac yr wyf yn cydsynied â'r rhagdybiau sy'n seiliol i'r rhain. Cytunaf mai priodol wrth gynllunio 'Cysylltiadau Cyhoeddus' a 'Chyfathrebu' fydd dethol a chyweirio geirfa yn broffesiynol. At ei gilydd, tyf yr eirfa atebol hylaw honno allan o egwyddorion a gweithgareddau bythol gyfrifol, ymarferol, a chost-gall, a hynny gyda gwyrriad gwirfoddol arweiniol a thrwy gael meithriniad ewyllys yn y safle blaenllaw.

Gwylhier. Dyw 'cynllun' byth yn achub iaith. Pobl wirfoddol sy'n gwneud hynny. A haws bob amser yw adnabod y negyddu ar y ffrynt gwirfoddol. Diogi, a diffyg cariad yw holl ruddin colli adennill. *Pobl* hefyd sy'n gallu sefydlu Canolfan Ymchwil. Ond pobl fyddant sydd o'r diwedd wedi 'gweld' y darlun llawn.

Ymholydd:

Ond gadewch inni fod yn glir ynghylch adeiladwaith y Ganolfan Ymchwil i Adennill yr Iaith. Ymhle yn Swyddfa'r Ganolfan y cewch y berthynas rhyngddi hi a'r wlad? Ymha ffordd y bydd hi'n hyrwyddo'r *gwaith gwirfoddol* ymhlith Oedolion nes ei fod ym mhob man? Gwn y gwelwch yr Unoliaeth gydweithiol rhwng y Cymry Cymraeg a'r Dysgwyr ar flaen y gad yn Ymgyrch yr Iaith. Ond mae'n ymddangos yn elfen ddieithr i 'Ymchwil'. Gwn eich bod yn synied mai hyn, a hyn yn unig a allai arwain at y math o fudiad poblogaidd, niferus, hyderus a nerthol ym mhob parth o Gymru, wedi'i ddatganoli. Ond a fydd yr Awdurdodau Gwleidyddol hwythau yn canfod y Gwead llawn hwnnw? Ac a fyddan nhw'n *gweld* gwasanaeth ymarferol yn hyn o beth i'r Ganolfan Ymchwil bondigrybwyll?

R.M.J.

Gwnânt: bydd amlygrwydd symud tuag at broffesiynoldeb a manylrwydd y fframwaith ynddynt eu hunain yn hunan-amlwg. Caiff felly ei gryfder hysbys ac agored. Yn y Fforwm a fydd yn uchafbwynt i'r cyswllt cyhoeddus, yn yr adroddiadau blynyddol, yn y newyddion, ond yn anad dim ym mhresenoldeb y grwpiau a fydd yn amlhau ledled y wlad mewn caffé neu mewn amgylchfyd cyffelyb, ac yng ngwenau'r bobol a ddaw allan ohonynt ar ôl eu clonc. Yng ngwella llwyddiant eu cyrsiau, ac yng nghynnydd y bobl a fydd yn aros yn y cyrsiau hynny wedi'r flwyddyn gyntaf, yn y rhain fel Cwlwm (a chanddo gnewyllyn) y cawn yr Adennill.

[Gwelir y parhad llawer mwy manwl i'r Cais hwn yn y ddogfen *Problemau wrth Adennill Iaith* sydd hefyd ar y Wefan hon.]